

Amlwch
 Holyhead
 Caergybi Benllech
 Llangefni
 Aberffraw
 Llandudno Rhyll
 Colwyn Bay
 Conwy Bae Colwyn
 Bangor Denbigh
 Caernarfon Dinbych
 Buckley Bwcle
 Beddgelert Ruthin Rhuthun
 Blaenau Ffestiniog Ruabon Rhiwabon
 Nefyn Porthmadog Corwen Rhosllannerchrugog
 Pwllheli
 Aberdaron
 Harlech Bala Llangollen
 Bermo Glyn Ceiriog Chirk
 Barmouth Llandrillo Y Waun
 Llanrhaeadr-ym-Mochnant
 Dolgellau Welshpool Y Trallwng
 Machynlleth Caersws Newtown
 Aberdyfi Mochdre Y Drenewydd
 Aberystwyth Llanidloes
 Rhaeadr
 Cei Newydd Rhayader
 New Quay Llanbedr Pont Steffan
 Tregaron Lampeter
 Aberteifi Built Wells
 Cardigan Llanfair-ym-Muallt
 Aberporth Crymych Aberhonddu
 Fishguard Llangammarch Brecon Talgarth
 Abergwaun Cenarth Llandovery Abergavenny
 Porthgain Pencader Llanbydder Y Fenni Monmouth
 Tyddewi Llandeilo Llandysul Llangynidr Llangadog Mynwy
 St Davids Caerfyrddin Tredegar Rhondda Ebbw Vale Glyn Ebwy
 Haverfordwest Camarthen Merthyr Tudful Blackwood Coed Duon
 Hwlfordd Arberth Pontardawe Aberdare Aberdâr Pontypool Pontypŵl
 Milford Haven Aberdaugleddau Neath Castell Nedd Pontypridd Chepstow
 Tenby Dinbych-y-pysgod Llanelli Gorseinon Caerffili Caerphilly Cas-gwent
 Pembroke Penfro Swansea Port Talbot Tonyandy Newport
 Abertawe Pen-y-bontar Ogwr Casnewydd
 Porthcawl Cwmbran Penarth
 Maesteg Caerdydd
 Barry Cardiff
 Y Barri

Gweithio dros Gymru

Maniffesto Etholiad
San Steffan 2015



Plaid
Cymru | Party of
Wales

Dewch i ddarganfod mwy am weledigaeth Plaid Cymru am Gymru decach a mwy ffyniannus yma:

www.plaid.cymru

Facebook

[PlaidCymruWales](https://www.facebook.com/PlaidCymruWales)

Twitter

[@plaid_cymru](https://twitter.com/plaid_cymru)

Telephone

029 20 472272

Mae fersiynau digidol, clyw ac hawdd i'w ddarllen ar gael ar ein gwefan.

Plaid Cymru: mae'r enw'n dweud y cyfan – rydym yn sefyll drosoch chi, eich teulu, eich cymuned a Chymru gyfan. Bob tro. Plaid i Gymru gyfan ydym ni – os ydych yn byw yn y dref neu'r wlad, waeth beth fo'ch cefndir na'ch iaith.

Rydym yn barod ac yn abl i herio San Steffan, herio pleidiau'r DG a gwrthod gadael i Gymru gael ei thrin yn eilradd, am nad ydym wedi ein clymu wrth feistri'r pleidiau yn Llundain, yn wahanol i BOB un o bleidiau eraill y Deyrnas Gyfunol.





Mae ein cynigion manwl yn y maniffesto hwn yn canolbwyntio ar wella bywydau pawb sy'n byw yng Nghymru.

Beth mae Plaid Cymru eisiau i Gymru:

- Sicrhau y caiff Cymru'r un fargen ar gyllid a phwerau â'r Alban
- Diogelu a chryfhau ein GIG: 1000 o feddygon ychwanegol a mwy o ambiwlansys
- Cael Cymru i weithio eto: 50,000 o swyddi gyda chytundebau lleol i gwmnïau Cymreig
- Adeiladu economi decach: cynyddu'r isafswm cyflog i gyflog byw i fwy na 250,000 o weithwyr a dim trethi busnes i dros 70,000 o gwmnïau Cymreig

“ Mae pobl Cymru yn wynebu dewis gwirioneddol yn yr etholiad. Mae tair plaid San Steffan wedi ymrwmo i economeg torri a llosgi. Mae'n debyg y bydd senedd grog arall wedi'r etholiad. Os felly, gallai Plaid Cymru ddal cydbwysedd grym ochr yn ochr â'n cydweithwyr yn yr SNP. Petai hynny'n digwydd, bydd Plaid Cymru yn gofyn am ail-gydbwyso grym a chyfoeth yn y DG. Os bydd pobl Cymru yn ethol carfan gref o ASau Plaid Cymru ym mis Mai, yna bydd Cymru mewn lle da i sicrhau canlyniad fydd yn gwella gobeithion ein pobl a'n cymunedau ”

Leanne Wood AC,
Arweinydd Plaid Cymru



Does dim yn anochel am ddyfodol Cymru

Mae ein dyfodol yn ein dwylo ni. Mae'n debygol iawn, yn dilyn y 7fed o Fai, y bydd yna senedd grog lle na fydd gan un blaid San Steffan fandad i fedru rheoli yn unigol.

Mae hyn yn rhoi cyfle digynsail i ddal cydbwysedd grym trwy ethol y tim mwyaf o ASau Plaid Cymru erioed.

Byddai hyn nid yn unig yn gosod ein gwlad yn gadarn ar y map gwleidyddol i sicrhau cydraddoldeb i'n gwlad o ran lefel yr hunan-reolaeth sydd gennym a'r ffynonellau sydd eu hangen arnom, ond hefyd yn rhoi'r cyfle inni roi terfyn ar yr agenda llymder sydd wedi achosi cymaint o niwed.

Mae cymunedau ym mhob cwr o'n cenedl wedi dioddef o ganlyniad i llymder.

O doriadau i wasanaethau ac asedau cymunedol, i ymosodiad annerbyniol ar bobl sydd yn derbyn diogelwch cymdeithasol, mae wedi bod yn 5 mlynedd anodd i lawer.

Ond nid yw llymder yn anoche. Mae'n ddewis.

Mae pleidiau San Steffan i gyd wedi arwyddo Siartr Llymder sydd

yn addo toriadau pellach. Ni all pobl yma gymryd mwy.

Yn nhermau ei hun, mae llymder wedi methu. Nid yw'r diffyg wedi cael ei ddileu. Mae dyled y DG yn cynyddu ac mae wedi cyrraedd mwy nag £ 1.4 triliwn. Mae'r DG wedi colli ei statws credyd Wobr 'A-drifflyg'.

Mae'n amser i roi terfyn ar yr arbrawf llymder.

Bydd Plaid Cymru bob amser yn gweithredu er budd gorau Cymru. Rydym yn sefyll ar gyfer pob person sy'n byw yng Nghymru beth bynnag yw eu cefndir.

Yn etholiad mis Mai byddwn yn gweithredu polisiau a fydd yn gosod sylfeini i Gymru ôl-llymder. Byddwn yn ail-gydbwyso'r grym a chyfoeth i ffwrdd o Ddinas Llundain a'i sector sy'n draenio gwasanaethau ariannol ac, yn lle, anadlu bywyd newydd i gymunedau yng Nghymru, gyda sgiliau newydd ar gyfer economi newydd, cytbwys.

Byddwn yn ceisio am godiad cyflog i'r rhai sy'n ei chael yn anodd ar gyflog is na'r cyflog byw.

Byddwn yn rhyddhau potensial ein busnesau bach a chanolig drwy gymryd 70,000 ohonynt allan o'r system trethi.

Byddwn yn cefnogi ein gwasanaeth iechyd gwerthfawr trwy sicrhau 1,000 o feddygon ychwanegol, fel y gallwn wella mynediad i wasanaethau meddygon teulu ac yn dod i lawr amseroedd aros.

Bydd Cymru ôl-llymder, wedi ei gyrru gan Plaid Cymru, yn gweld cenedligrwydd Cymru wedi ei parchu a'n pobl wedi ei grymuso.

Leanne Wood AC
Arweinydd Plaid Cymru



Cynnwys

1. Gweithio dros Gymru – Dod â'n Llywodraeth Adref
2. Gweithio dros Swyddi – Tyfu'r Economi, Cael Cymru'n Gweithio, Cyllid a Threthiant
3. Gweithio dros Well Gofal Iechyd – Arbed ein GIG, Iechyd Cyhoeddus
4. Gweithio dros Ddyfodol ein Plant – Addysg, Addysg Uwch, Hyfforddi a Sgiliau
5. Gweithio dros Gymru Decach – Lles, Pensiynau, Tlodi Tanwydd, Tai
6. Gweithio dros Gymru fwy Diogel – Troseddu, Cyfiawnder, Plismona
7. Gweithio dros Gymru – Amddiffyn, Polisi Rhyngwladol a Diogelwch
8. Gweithio dros Gymru yn Ewrop – Diwygio, Mudo
9. Gweithio i Gysylltu Cymru – Trafnidiaeth
10. Gweithio dros Gymru Well – Democratiaeth a Llywodraeth
11. Gweithio dros Gymru Fwy Gwyrdd – Ynni, Adnoddau Naturiol, Bwyd ac Amaeth
12. Gweithio dros ein holl Bobl – Materion Gwledig, Cymunedau Cynaliadwy, yr Iaith Gymraeg, Diwylliant
13. Gweithio dros Gymru fwy Llwyddiannus – Brand Cymru, Twristiaeth, Chwaraeon, y Celfyddydau, Cyfryngau a Diwylliant

Gweithio dros Gymru

Dod â'n Llywodraeth Adref



“Mae pobl ar hyd a lled y wladwriaeth Brydeinig yn chwilio am ddewis arall yn lle system fethiannus San Steffan. Mae Plaid Cymru eisiau dod â'n llywodraeth adref i Gymru fel bod gennym y pwerau a'r mecanweithiau i'n rhoi o leiaf ar yr un lefel â'n cymdogion. Rhaid i Gymru gael y grym dros ei hadnoddau naturiol ei hun, y system cyfiawnder troseddol a phlisma, a rhaid gwneud ein llywodraeth yn atebol i'r bobl am yr arian maent yn gwario ar eu rhan. Rhaid i Gymru gael ei thrin fel cenedl a rhaid i'r pwerau sydd ganddi ei galluogi i weithredu fel cenedl.”

Leanne Wood AC, Arweinydd Plaid Cymru

Rydym eisiau i'r penderfyniadau sy'n effeithio arnom ni gael eu gwneud yma yng Nghymru – nid gan lywodraeth San Steffan nad yw'n malio. Rhaid i Gymru gael ei thrin fel cenedl a rhaid i'r pwerau sydd ganddi ei galluogi i weithredu fel cenedl. Cred Plaid Cymru fod Cymru yn genedl sofran, ac mai yn nwylo'r bobl y dylai pwr fod. Dyw hi ond yn deg i Gymru gael yr un pwerau â'r Alban.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Plaid Cymru oedd y blaid gyntaf i ymateb i Comisiwn Silk ac i Refferendwm Annibyniaeth yn yr Alban, gan gyhoeddi ein papur 'Dod â'n Llywodraeth Adref' a chyflwyno gwelliannau pell-gyrhaeddol i Fesur Cymru i roi mwy o bwerau i Gymru.
- Mae Plaid Cymru yn gyson wedi gwneud yr achos dros roi mwy o bwerau i Lywodraeth Cymru. Yn ein hymateb i Comisiwn Silk, galwon ni am fwy o bwerau creu swyddi ar gyllid, cyfrifoldeb dros ynni, darlledu a chyfiawnder troseddol.
- Fel rhan o Lywodraeth Cymru'n Un o 2007 i 2011 yng Nghymru, arweinion ni'r ymgyrch ar gyfer refferendwm 2011, lle cefnogodd bron i ddau draean roi pwerau deddfu i Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf.

Penderfyniadau yn nes at adref

Rydym eisiau gweld trosglwyddo yn llawn i Lywodraeth Cymru y pwerau a argymhellwyd yn nau adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru cyn gynted ag sydd modd fel y bydd yn bosib creu cymdeithas well, fwy teg a mwy ffyniannus i bobl Cymru.



Mae Plaid Cymru yn galw am i'r pwerau canlynol ddod yn gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru yn syth:

Plismona

Cyfiawnder troseddol a'r llysoedd

Dedfrydu, Cymorth Cyfreithiol, Gwasanaeth Eryl y Goron a'r farnwriaeth

Gwasanaethau carchardai a phrawf

Tâl ac amodau'r sector cyhoeddus

Elfennau o Nawdd Cymdeithasol

Pwerau Cynllunio ychwanegol

Darlledu

Adnoddau Naturiol ac Ynni

Pob pŵer trwyddedu a goruchwyllo am ecsploetio adnoddau naturiol

Stad y Goron

Dŵr, gan gynnwys carthffosiaeth

Porthladdoedd a harbyrau

Asiantaeth Moroedd a Gwylwyr y Glannau

Masnachfrait rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Gwaith Network Rail yng Nghymru

Cyfyngiadau cyflymder a therfynau yfed a gyrru

Rheoleiddio bysus a thacsis

Cyfansoddiad Cymru a Threfniadau Etholiadol



Cyfansoddiad sy'n cael ei arwain gan Ddinasyddion

Dylai'r holl bwerau gael eu rhoi i Gymru ac eithrio'r rhai y mae pobl Cymru yn cytuno ddylai gael eu cadw gan San Steffan, fel sy'n digwydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd Plaid Cymru yn pwysu am gyfansoddiad ysgrifenedig i Gymru fydd yn deillio o broses a arweinir gan ddinasyddion – nid comisiwn

wedi ei arwain gan wleidyddion. Bydd datblygu'r cyfansoddiad yn y modd hwn yn ein galluogi i ystyried y gymdeithas yr ydym eisiau ei hadeiladu, nid dim ond lle dylid cadw pwerau.

Gweithio gyda'n gilydd

Mae modd gwneud llawer i wella'r ffordd mae'r pedair gwlad yn gweithio ynghyd er lles eu pobl. Gall Cydbwyllgor y Gweinidogion, lle mae Gweinidogion y pedair

cenedl yn cwrdd, ganiatáu cydweithredu ar bolisiau o ddiddordeb iddynt oll, fel y rhai a gedwir yn ôl i San Steffan ond sy'n cael effaith ar y pedair gwlad.

Dylid datblygu mwy ar y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i wella'r berthynas rhwng cenedloedd yr ynysoedd hyn - waeth beth fo'u statws cyfansoddiadol, gan gyfnewid y llywyddiaeth rhyngddynt, ar batrwm yr UE, a ffurfioli strwythurau i gydweithredu yn well ar asedau a rennir a datblygu'r Ardal Deithio Gyffredin.

Gweithio dros Swyddi Economi sy'n Tyfu



“Rydym eisiau rhyddhau diwydiant a menter Cymru i ffynnu a chwarae eu rhan i gael Cymru i weithio eto. Rydym eisiau creu'r amodau ar gyfer economi sy'n ffynnu, i adeiladu'r gymdeithas deg a ffyniannus y gwyddom y gallwn fod.”

Leanne Wood AC, Arweinydd Plaid Cymru.

Mae Plaid Cymru eisiau economi llwyddiannus i Gymru, lle gall pawb wneud y mwyaf o'u potensial. Economi fydd yn tyfu fydd hyn lle mae pawb yn elwa – nid dim ond y 1% cyfoethocaf. Bydd buddsoddi a chynllunio yn rhoi cyfle i bawb gael swydd dda a chadw cydbwysedd call rhwng gwaith a bywyd. Wrth i'r economi wella, cred Plaid Cymru y dylai pawb fod ar eu hennill. Yn wahanol i bleidiau San Steffan, nid ydym yn cefnogi parhau â pholisiau 'llymder' – y toriadau gafodd effaith mor andwyol ar ein ffordd o fyw ac sy'n taro galetaf y mwyaf tlawd yn ein cymdeithas.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mae Plaid Cymru yn gyson wedi gwrthwynebu toriadau llymder sydd wedi eu gwthio drwy Senedd y DG gan bleidiau blaenllaw'r DG yn arwain at doriadau difrifol i gyllid Gymru.
- Yn cydnabod methiant polisi economaidd y DG, cyhoeddodd Plaid Cymru gynlluniau ar gyfer Mesur Tegwch Economaidd i rannu cyfoeth mewn dull mwy teg, mewn termau daearyddol ac unigol.
- Mae ein cynllun economaidd, Cynllun C i Gymru, a gyhoeddwyd yn 2012 yn dangos sut y gall Gymru wella ei heconomi, gan ddefnyddio'r pwerau sydd gennym eisoes – ond mae Llywodraeth Cymru yn methu â'u defnyddio yn llwyddiannus.
- Fel rhan o'n bargaen ar y Gyllideb Gymreig yn 2012, llwyddom i sicrhau cyllido gwerth £40m ar gyfer miloedd o brentisiaethau newydd ar draws Cymru, yn hyfforddi pobl ar gyfer swyddi lle mae angen sgiliau.
- Rydym wedi sicrhau arian gan y llywodraeth ar gyfer prosiectau pwysig fel Parc Gwyddoniaeth Menai fydd yn adfywio a thyfu'r economi a darparu swyddi yng Nghymru.

Mesur Tegwch Economaidd

Er mwyn rhannu cyfoeth mewn dull mwy teg yn y DG, ac er mwyn sicrhau fod Cymru yn derbyn ei chyfran deg o fuddsoddi cyhoeddus, bydd Plaid Cymru yn cyflwyno Mesur Tegwch Economaidd, i ail-gydbwysu cyfoeth y DG. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i Lywodraeth y DG yn wastad asesu'r effaith ar Gymru o'u polisiau a'u gweithredoedd economaidd cyn gweithredu.

Byddwn yn creu 50,000 o swyddi yng Nghymru trwy roi mwy o gontractau sector cyhoeddus i gwmnïau sy'n gweithio yng Nghymru, fel bod ein economi ar ei hennill o fwy na'r £4.3bn sy'n cael ei wario gan y sector cyhoeddus Cymreig bob blwyddyn.



Helpu busnesau Cymreig i dyfu

I leihau costau i fusnesau bach a chanolig, bydd Plaid Cymru yn newid y ffordd mae trethi busnes yn gweithredu yng Nghymru. Trwy gynyddu rhyddhad trethi busnes yng Nghymru, bydd mwy na 80,000 o fusnesau bach a chanolig yn talu llai, a 70,000 o fusnesau Cymreig heb dalu trethi busnes o gwbl.

Bydd creu Banc Datblygu Cymreig yn sicrhau digon o gredyd i gwmnïau Cymreig gynnal eu busnes a chefnogi ehangu, a bydd hyn yn ei dro yn creu mwy o swyddi newydd yng Nghymru. I gefnogi allforion Cymreig ledled y byd a thyfu marchnadoedd newydd yn Ewrop a'r gwledydd sy'n datblygu, bydd Plaid Cymru yn datblygu Menter Masnach Dramor a fydd yn diogelu swyddi presennol a chreu swyddi newydd.

Mwy o gefnogaeth i ganol trefi

Mae canol trefi Cymru wrth galon cymunedau, gan gynhyrchu cyfoeth yn lleol ac yn dwyn pobl at ei gilydd, ond mae arnynt angen mwy o gefnogaeth. Mae Plaid Cymru yn annog pobl i siopa yn lleol. Fe fyddwn yn gwella canol trefi Cymru trwy ddenu

pobl yn ôl i'r stryd fawr, gwella cludiant cyhoeddus, a dychwelyd gwasanaethau hanfodol lleol, fel canolfannau meddygol, i ganol trefi.

Bargen Newydd Werdd

Bydd Plaid Cymru yn sefydlu Coleg Sgiliau Gwyrdd i ddatblygu sgiliau hanfodol i wneud ein heconomi yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd ac ar yr un pryd greu swyddi ymchwil a datblygu a gweithgynhyrchu i gwrrdd â'r angen hwn trwy 'Fargen Newydd Werdd' i ddeiliaid tai a busnesau. Byddwn yn cefnogi ac yn annog busnesau Cymru i ddefnyddio ynni ac adnoddau naturiol yn effeithlon.

Ymchwil, Datblygu a Gweithgynhyrchu

Byddwn yn datblygu strategaeth weithgynhyrchu newydd i Gymru, gan fanteisio ar y sgiliau sy'n bod eisoes yn ein cymunedau a'n prifysgolion i greu swyddi gyda sgiliau a gwerth uchel trwy ymchwil, datblygu a gweithgynhyrchu.

Mwy o Fuddsoddi

Rhaid hwyluso a rheoli prosiectau buddsoddi yng Nghymru yn well. Bydd Plaid Cymru yn rhoi

i Lywodraeth Cymru y pwerau i warantu prosiectau buddsoddi mawr i Gymru er mwyn rhoi sicrwydd y byddant yn cael eu gweithredu, gan graffu yn briodol ar y buddsoddi hwn er mwyn gwneud yn siwr y bydd yr arian yn cael ei wario'n ddoeth.

Yr ydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gael digon o bwerau benthyca i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith Cymreig a bydd yn cynyddu'r rhai sydd yn Neddf Cymru. Byddwn yn ymrwymo 1% yn ychwanegol o GDP y DG i fuddsoddi mewn seilwaith bob blwyddyn. Byddai hyn yn sicrhau £800m i'w fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith Cymreig bob blwyddyn.

Bydd Plaid Cymru hefyd yn cyflwyno ein rhaglen 'Adeiladu I Gymru' i fenthycu cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith Cymreig a chreu canolfan sy'n arbenigo mewn rheoli prosiectau seilwaith mawr.

Cadw swyddi yng Nghymru

Bydd Plaid Cymru yn annog modelau gwahanol o gwmni i'r model cwmni cyfyngedig/ccc, gan archwilio posibilrwydd sefydlu Sefydliad Cymreig Perchenogaeth Gweithwyr i annog creu a throsi i ffurfiau o fentrau masnachol dan reolaeth/yn nwylo gweithwyr.

Gweithio dros Swyddi Cael Cymru i Weithio



“Dylai ein gweithwyr gael cyflog teg am ddiwrnod gonest o waith. Nid yw'n dderbyniol fod 25% o weithwyr yng Nghymru yn cael eu talu llai na'r Cyflog Byw. Os ydych yn gweithio wythnos ddeugain awr, fe ddylech ennill digon i fyw arno. Dyna pam ein bod yn yr etholiad hwn wedi ymrwymo i gael cyflog byw i bawb erbyn 2020 – codiad cyflog i 250,000 o weithwyr Cymru. Rydym eisiau i Gymru fod ar flaen y gad o ran tegwch economaidd.”

Leanne Wood AC, Arweinydd Plaid Cymru

Mae Plaid Cymru eisiau cael mwy o bobl yng Nghymru i waith, gyda thâl ac amodau gwell. Fe fyddwn yn gwella cyfleoedd am waith i bawb – gan helpu pobl i gael swyddi, gwarantu help i bobl ifanc sy'n dechrau gweithio am y tro cyntaf a'r sawl sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i swydd.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mae Plaid Cymru wedi gwrthwynebu cynlluniau i dorri hawliau gweithwyr fyddai'n ei wneud yn haws i benaethiaid gwael gael gwared ar staff.
- Cyflwynodd Plaid Cymru welliannau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i wahardd defnydd contractau dim-oriau yn y sector gofal ac amaeth. Trechwyd y gwelliannau gan Lywodraeth Cymru.
- Rydym wedi brwydro yn erbyn toriadau yn y sector cyhoeddus gan gydnabod bod y rhain yn darparu swyddi o ansawdd uchel sydd yn talu'n dda mewn ardaloedd sydd fel arall wedi eu herio yn economaidd.
- Gan gydnabod gwerth unrhyw swydd yn ystod amseroedd economaidd caled, mae Plaid Cymru wedi tanlinellu'r angen am swyddi sy'n talu'n well a sector preifat cryf er mwyn osgoi tan-gyflogaeth.

Cyflog Byw

Bydd Plaid Cymru yn cynyddu'r isafswm cyflog i'r un lefel â'r Cyflog Byw dros y Senedd nesaf. Bydd hyn yn sicrhau codiad cyflog i fwy na 250,000 o weithwyr Cymreig erbyn 2020, a gallai greu hyd at 20,000 o swyddi newydd yng Nghymru trwy wario mwy mewn cymunedau lleol. Byddwn yn gofalu y bydd ymchwilio i fwy o gwmnïau yr honnir sy'n talu llai na'r isafswm cyflog, a'u bod yn cael eu herlyn.

Rydym eisiau rhoi terfyn ar gontractau gorfodol dim-oriau sy'n clymu gweithwyr i gwmni ond heb roi gwarant o incwm wythnosol iddynt.



Helpu pobl i ddod o hyd i waith

Un o'r problemau mwyaf yr ydym yn wynebu ar hyn o bryd yng Nghymru yw cael pobl yn ôl i waith.

Yr ydym yn anghytuno â phleidiau San Steffan sy'n beio pobl dan anfantais am y sefyllfa maent ynddi, ac yr ydym yn gwrthod preifateiddio cynlluniau i helpu pobl i mewn i waith.

I helpu i leihau diweithdra, byddwn yn helpu pobl sydd yn ei chael yn fwyaf anodd i ddod o hyd i waith, gan gynnwys pobl ag anabledd ac sydd heb fawr ddim sgiliau na chymwysterau, i ddod o hyd i waith addas. Gwneir hyn trwy drin pobl yn deg a thrwy ganolbwyntio ar yr hyn y gall unigolion wneud o ddydd i ddydd heb fygwth eu cosbi.

Bydd Plaid Cymru yn teilwrio gwasanaethau chwilio a chreu gwaith i anghenion Cymru trwy neilltuo swyddogaethau ceisio swyddi Canolfan Byd Gwaith

i Lywodraeth Cymru. Gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am addysg, hyfforddiant a sgiliau a pherfformiad economi Cymru, mae'n synhwyrol integreiddio'r rhain gyda swyddogaethau chwilio am waith.

Yr ydym yn cefnogi Gwarant Swyddi Ieuencid yr Undeb Ewropeaidd fydd yn darparu hyfforddiant neu waith i unrhyw berson ifanc dan 25 sydd heb waith am fwy na phedwar mis, mynd i'r afael â diweithdra ieuencid wrth y gwraidd trwy gefnogi pobl ifanc i gael a manteisio ar brofiad gwaith a chymwysterau.

Bydd Plaid Cymru yn darparu rhyddhad trethi i weithwyr hunan-gyflogedig sy'n dilyn cwrs hyfforddiant ac yn ymchwilio i greu asiantaeth hyfforddi gyda chanolfan yng Nghymru, sy'n arbenigo mewn hyfforddi pobl hunan-gyflogedig.

Tegwch yn y gweithle

Bydd Byrddau Goruchwylio cwmnïau mawr sy'n cyflogi mwy na 500 staff yn cynnwys gweithwyr etholedig, i sicrhau bod craffu ar reolaeth er budd y cwmni yn ei gyfanrwydd, ar sail yr arfer mewn gwledydd diwydiannol lwyddiannus fel yr Almaen.

Bydd cynllun 'tâl teg' sy'n cysylltu tâl pawb mewn cwmni yn cael ei gyflwyno, rhag i dâl yr uwchswyddogion godi i'r entrychion tra bod gweddill y staff heb dderbyn codiadau, yn dilyn comisiwn i bennu'r lefel fwyaf addas o dâl cymesur.

Bydd Plaid Cymru yn creu Comisiwn Annibynnol i ystyried polisi cysylltiadau diwydiannol a bydd yn deddfu yn erbyn gosod pobl ar 'restr ddu'. Byddwn yn adolygu lefelau presennol Ffioedd Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a weithredwyd gan Lywodraeth y DG, lle mae costau uchel yn atal gweithwyr rhag mynd at gyfiawnder.

Gweithio dros Swyddi Cyllid a Threthiant



“Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i adferiad gwirioneddol ledled Cymru wedi ei yrru gan swyddi sgiliau uchel sy'n talu'n dda. Byddai ein polisi o addo 1% yn ychwanegol o GDP y DG i fuddsoddi mewn seilwaith yn sicrhau £800m i dalu am ffyrdd, rheilffyrdd, ysgolion ac ysbytai yng Nghymru.”

Jonathan Edwards Ymgeisydd Plaid Cymru Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Cred Plaid Cymru y dylai pawb dalu cyfran deg o drethi fel y gallwn ni yng Nghymru oll rannu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol o'r radd flaenaf. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r sawl sy'n ennill fwyaf – fel unigolion neu gwmnïau – wneud cyfraniad teg, yn union fel y rhai sydd ar incwm is.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mae Plaid Cymru wastad wedi herio tegwch Fformiwla Barnett, sydd, a chytunodd y Comisiwn Holtham, wedi tan-gyllido Cymru o gannoedd i filiynau o bunnoedd bob blwyddyn. Mae arnom eisiau yr un peth â'r hyn mae'r Alban yn ei gael.
- Mae Plaid Cymru yn cefnogi Cymru'n cymryd mwy o gyfrifoldeb dros godi a gwario prif drethi. Cyflwynom welliannau i Fesur Cymru fyddai'n rhoi pwerau dros dreth incwm yn nwylo Llywodraeth Cymru pe bai mwyafrif llethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gefnogi, heb angen refferendwm gwastraffus a thechnegol.
- Pleidleisiodd ASau Plaid Cymru yn erbyn lleihau cyfradd ychwanegol treth incwm o 50c i 45c yn nadl Cyllideb 2012, ddim fel Llafur a aeth adref yn gynnar.



Bargen well i Gymru

Byddwn yn mynnu bod Cymru yn cael ei chyllido i'r un lefel y pen â'r Alban, gan ein helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon a buddsoddi yn ein economi.

Er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael borgen deg, byddai Plaid Cymru yn creu comisiwn annibynnol i ddatrys anghydfod ynghylch cyllido yng Nghymru. Dan y drefn bresennol, bydd Plaid Cymru yn gwella'r adnoddau sydd ar gael i Uned y Gwledydd Datganoledig fel y gall ymdrin yn iawn â materion sy'n ymwneud â chyllido i Gymru.

Cred Plaid Cymru y dylai Cymru gael yr un pwerau trethi â'r Alban.

Trethiant teg

Bydd cyfradd dreth ychwanegol y DG yn cael ei gosod ar 50c yn y bunt i'r sawl sy'n ennill dros £150,000 y flwyddyn.

I helpu gweithwyr ar gyflogau isel,

byddwn yn codi trothwy'r lwfans personol ar gyfer talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, gyda'r nod o wneud hyn yr un trothwy ar gyfer talu treth incwm. Ar yr un pryd, byddwn yn cynyddu'r Terfyn Enillion Uchaf ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol i £100,000 y flwyddyn.

Byddwn yn rhoi diwedd ar y cymhorthdal o 40% ac uwch o ryddhad pensiwn i drethdalwyr y gyfradd uwch, fydd yn arbed rhyw £15bn y flwyddyn ac yn cyflwyno mesurau i atal symud incwm yn artiffisial sy'n caniatáu i unigolion cyfoethog dalu cyfraddau ymylol is ar dreth enillion cyfalaf nac ar dreth incwm.

Byddai Treth Enillion Cyfalaf yn cael ei thalu ar yr un gyfradd â threth incwm a bydd y gyfradd gymhwyso am dreth etifeddiaeth yn cael ei ymestyn o saith i bymtheng mlynedd.

Yn ôl y Rhwydwaith Cyfiawnder Treth, amcangyfrifir bod osgoi talu trethi yn costio £120bn y flwyddyn ar draws y DG.

Mae ar HMRC angen mwy o staff i atal osgoi talu treth gorfforaeth a gwrthod talu treth incwm, a chau'r 'bwloch treth' hwn. Byddai hyn yn gwrthdroi'r toriad o 25% mewn staff a gychwynwyd dan Lywodraeth Lafur flaenorol y DG.

Bydd Plaid Cymru yn trosglwyddo rheolaeth dros Dreth Gorfforaeth i Gymru.

Cefnogi Cymru

Bydd Plaid Cymru yn creu rheolydd treth tanwydd i atal cynnydd sydyn mewn prisiau tanwydd, i helpu aelwydydd a busnesau i reoli eu biliau.

Er mwyn gwella stoc dai Cymru, cefnogi diwydiant adeiladu Cymru a gostwng biliau trethi, byddwn yn gostwng TAW i 5% ar adnewyddiadau ardstyiedig i dai.

Byddwn yn cefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru trwy ostwng TAW i wneud 'gwyliau gartref' yn fwy fforddiadwy a denu ymwelwyr o dramor, gan greu hyd at 7,000 o swyddi.

Gweithio dros Swyddi Pwerau Ariannol



“Mae'r toriadau sy'n cael eu gorfodi ar Gymru oherwydd yr argyfwng ariannol yn ein hatgoffa, pan fo'r banciau a busnesau mawr yn methu, mai'r gweddill ohonom sy'n gorfod talu. Cred Plaid Cymru y dylai Cymru gael llais ar bob lefel o wneud penderfyniadau sydd yn dylanwadu ar fywyd yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n cael effaith ar swyddi a bywoliaeth pobl. Mae'n hanfodol fod polisi arianyddol y DG yn gweithio i Gymru.”

Leanne Wood AC, Arweinydd Plaid Cymru

Rydym yn credu y dylai penderfyniadau ynghylch ein harian gael eu gwneud yng Nghymru, ar ran y bobl maent yn effeithio arnynt. Nid pobl Cymru a achosodd yr argyfwng ariannol na'r dirwasgiad. Dyma sut y gwnawn yn siwr na fydd yn digwydd eto.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mae Plaid Cymru wedi gwneud yr achos dros i Fanc Lloegr gydnabod economi Cymru wrth lunio polisi ariannol.
- Cyflwynodd ein ASau gynrig yn y Senedd yn galw am ddiwygio Banc Lloegr i adlewyrchu yn well ofynion Cymru a'r cenhedloedd datganoledig.
- Fe wnaethom ddatblygu cynigion am fanc datblygu cyhoeddus i Gymru, gan bledio achos banc o'r fath sy'n gwneud benthyciadau i fusnesau bach a diwydiannau lleol a'u datblygu.





Atebol i Gymru

Mae Plaid Cymru yn cefnogi cyflwyno Trysorlys Cymreig, gyda Llyfr Gwyrdd i sicrhau datblygu cynaliadwy.

Bydd Banc Lloegr yn cael ei ailenwi yn Fanc Sterling Canolog i adlewyrchu ei gyfrifoldeb dros bob gwlad sy'n defnyddio sterling fel arian trafod. Bydd Pwyllgor Polisi Arianyddol a Pholisi Ariannol Banc Lloegr/ y Banc Sterling Canolog yn cynnwys cynrychiolaeth Gymreig, wedi eu henwebu gan Lywodraeth Cymru a bydd gofyniad statudol hefyd ar Lywodraethwr Banc Lloegr/ y Banc Sterling Canolog i fynychu cyfarfodydd craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i esbonio sut y bydd penderfyniadau a gymerwyd yn effeithio neu wedi effeithio ar economi a phobl Cymru.

Bydd Banc Lloegr yn gyfrifol nid yn unig am asesu chwyddiant ond hefyd am ystyried anghenion yr economi ehangach cyfan, gan gynnwys twf economaidd cytbwys rhwng rhanbarthau, diweithdra a chwyddiant ymysg dangosyddion.

Bydd cynrychiolaeth ehangach ar bwyllgorau'r Banc yn gofalu bod penderfyniadau am gyfraddau llog yn adlewyrchu economi parth Sterling yn ei gyfanrwydd, nid dim ond Dinas Llundain a de-ddwyrain Lloegr.

Gwell camau rheoli

Byddem yn cryfhau deddfwriaeth wrth-osgoi trethi er mwyn ei wneud yn anos i gwmnïau, unigolion a sefydliadau eraill osgoi talu'r swm priodol.

Rydym eisiau gweld rhaniad llwyr rhwng bancio buddsoddi ac adwerthu, fel nad yw arian buddsoddwyr yn cael ei ddefnyddio i hapfasnachu, oni fyddant yn cael eu cyfarwyddo i wneud hynny.

Byddwn yn atal cwmnïau, unigolion a mudiadau eraill rhag osgoi trethi.

Byddwn yn cyflwyno Treth Trafodion Ariannol ar drafodion ariannol ar drafodion ariannol a deddfwriaeth debyg i Ddeddf Ailfuddsoddi Cymunedau yn UDA i sicrhau bod credyd priodol ar gael i unigolion a busnesau, lle bynnag y maent.

Pwerau ariannol yng Nghymru

Bydd ein cynllun 'Adeiladu I Gymru' yn caniatáu cyfleoedd benthyca ychwanegol am seilwaith i Lywodraeth Cymru, gan greu hyd at 50,000 o swyddi a datblygu canolfan ragoriaeth i gaffael a chyflwyno seilwaith yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i wrthwynebu defnydd gan y sector cyhoeddus o Fentrau Cyllid Preifat fu'n werth mor wael am arian i'r trethdalwr, a byddwn yn ceisio ail-drafod y contractau PFI hynny nad ydynt yn rhoi bargaen dda ac sy'n atal ymdrechion i wella economi Cymru.

I helpu i roi atebion i'r heriau sy'n wynebu economi Cymru, byddwn yn y chwilio ymhellach i greu Banc Cyhoeddus yng Nghymru all fuddsoddi yn anghenion seilwaith Cymru a sicrhau mwy o wybodaeth am economi Cymru, gan gynnwys ffigur manwl gywir a rheolaidd am GDP Cymru.

Gweithio dros Well Gofal Iechyd



“Yng Nghymru y ganed y GIG ac yr ydym yn haeddiannol falch o’r cyfraniad hwnnw. Mae’r GIG yng Nghymru heddiw angen arweiniad newydd. Mae Plaid Cymru eisiau cael y gwasanaeth iechyd Cymreig gorau, i’r staff a’r cleifion.”

Elin Jones AC, Llefarydd ar Iechyd

Mae gofal iechyd yn effeithio arnom oll, hen ac ifanc. Dyna pam ein bod eisiau’r gofal gorau i gwrdd ag anghenion pawb. Mae gan Plaid Cymru uchelgais am Wasanaeth Iechyd Gwladol Cymreig sydd yn wirioneddol o’r radd flaenaf. I wneud hyn, rhaid i ni hyfforddi a recriwtio mwy o feddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd eraill, a buddsoddi mwy yn ein hysbytai ac ambiwlansys.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mae Plaid Cymru yn gyson wedi gwrthwynebu symud gwasanaethau hanfodol a allai achub bywydau o ysbytai lleol oherwydd prinder staff.
- Ym mis Ionawr 2014 fe wnaethom amlinellu ein cynigion i hyfforddi a recriwtio 1000 yn ychwanegol o feddygon er mwyn diogelu dyfodol ein GIG ym mhob rhan o Gymru.
- Mae Plaid Cymru wedi arwain y ddadl ar gryfhau gwasanaethau gofal iechyd cymunedol er mwyn cadw pobl â salwch cronig allan o’r ysbyty. Ym mis Hydref 2013 fe fuom yn gweithio i sicrhau £50 miliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn gwasanaethau arbennig rhag i bobl â salwch cronig orfod mynd i Adrannau Brys.
- Yr ydym wedi amlinellu cynigion am integreiddio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, er mwyn gwneud yn siwr fod ein gwasanaethau iechyd cymunedol yn seiliedig ar anghenion y claf yn hytrach na’r sefydliad.



Dim preifateiddio

Sefydlwyd y gwasanaeth iechyd i ofalu am iechyd y bobl. Ni ddylai'r gwasanaeth iechyd fod yn destun egwyddorion y farchnad rydd. Does dim lle i fudr-elwa yn ein gwasanaeth iechyd.

Mae Plaid Cymru yn gwrthod marchnadeiddio a phreifateiddio'r GIG a byddwn yn gwrthwynebu unrhyw symud i'r cyfeiriad hwnnw gan lywodraethau yn San Steffan a Chymru, yn enwedig os caiff effaith andwyol ar gyllido'r GIG yng Nghymru. Yr ydym yn gwrthwynebu'n gryf gynnwys y GIG yn y fargen fasnach rydd rhwng yr UE ac UDA, y Bartneriaeth Fasnach a Buddsoddi Trawsiwerydd.

Gwella staffio

Ar hyn o bryd, mae gan Gymru lai o feddygon y pen nac unrhyw wlad arall, bron, yn yr Undeb Ewropeaidd, a llai nac yn unrhyw wlad arall yn y DG. Er mwyn i ni allu torri amseroedd aros am driniaethau mewn ysbytai a helpu cleifion i gael apwyntiadau yn gynt gyda meddygon teulu ar adegau cyfleus, bydd Plaid Cymru yn hyfforddi a recriwtio 1,000 yn ychwanegol o feddygon i weithio yn GIG Cymru, gan gynyddu nifer y meddygon y pen o boblogaeth i ffigwr cyfartalog y DG.

Bydd cynllun gweithlu cenedlaethol yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod digon o staff gofal iechyd ym mhob rhan o Gymru. Byddwn yn cynyddu nifer y nyrsus ardal a chymunedol er mwyn cefnogi pobl y tu allan i'r ysbyty

Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant yma yng Nghymru i fwy o feddygon, parafeddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, fel eu bod yn cyfrannu at GIG Cymru a sicrhau lefelau staffio mwy diogel. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar sicrhau digon o staff meddygol a gweithwyr cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg i gwrdd ag anghenion cymdeithas ddwyieithog.

Fel bod mwy o ambiwlansys ar gael i'w hanfon a rhyddhau cleifion i mewn i adrannau brys heb oedi diangen, byddwn yn cynyddu adnoddau ar gyfer ambiwlansys a staffio, ac yn sicrhau bod digon o ofal brys ar gael, gan gynnwys uwch-ymarferwyr fel nyrsys a pharafeddygon, i drin pobl yn y fan a'r lle.



Gwasanaethau iechyd lle mae pobl eu hangen

Rydym eisiau gwneud yn siwr y gall pobl dderbyn gofal iechyd a chefnogaeth gan y GIG yn eu cartrefi eu hunain neu'r gymuned.

Mae hyn yn cynnwys amddiffyn a hybu'r gwasanaeth nyrsio ardal a hefyd datblygu gwasanaethau arbenigol yn ôl y galw ac i bobl gydag anghenion arbennig, megis plant, pobl hŷn a'r rhai sydd angen gofal lliniarol.

Bydd Plaid Cymru yn darparu arian i helpu'r Gwasanaeth Ambiwlans Awyr annibynnol, sydd yn fwy angenrheidiol nac erioed yn dilyn ad-drefnu ysbytai yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Byddwn yn sicrhau y gall pawb fynd at ddeintydd y GIG lle bynnag mae pobl yn byw yng Nghymru, fydd yn caniatáu i bawb elwa o'r un lefel o ofal ataliol.

Byddwn yn gweithredu Cynllun Cancr Cenedlaethol fel bod pob claf yn gallu derbyn y gofal gorau posib, lle bynnag maent yn byw.

Byddwn hefyd yn cael panel cenedlaethol ar gyfer cymeradwyo ceisiadau cyllido cleifion unigol a blaenoriaethu diagnosis cynnar drwy daclo amseroedd amser annerbyniol o hir ar gyfer profion diagnostig, fel bod cleifion yn cael y cyfle gorau i wella.

Bydd Plaid Cymru hefyd yn gweithio i sicrhau y bydd cleifion cancr yn cael mynediad at nyrs sy'n arbenigo mewn cancr fel eu bod yn cael cefnogaeth drwy gydol triniaeth ac ymhellach, gan gynnwys cyngor clinigol a chefnogaeth gyda materion ymarferol pwysig fel cyllido a chyflogaeth.

Ansawdd Gofal

Boed rhywun angen gofal cartref, preswyl, cartref nyrsio neu nyrsio gan y GIG, dylai hyn fod yn fater a benderfynir ar sail angen yr unigolyn, nid hwylustod y sefydliad. Trwy integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, fe fyddwn yn sicrhau gofal gwell sy'n canolbwyntio ar y claf trwy wneud i ffwrdd â gwaith papur diangen a sicrhau cydweithrediad rhwng cyrff. Bydd Plaid Cymru yn gweithio tuag at GIG ddi-

bapur fydd yn arbed arian a biwrocratiaeth fel y gall staff meddygol, gan gadw mewn cof reolau ar gyfrinachedd, gyrchu cofnodion meddygol lle bynnag yng Nghymru yr ydych yn cael eich trin.

Byddwn yn cefnogi pob mesur i wella urddas mewn gofal ac mewn ysbytai, gan weithio i sicrhau bod digon o amser i ofalu lle bynnag yr ydych yn cael eich trin.

Byddwn yn cefnogi pawb sy'n mynegi pryderon am safonau gofal iechyd a bydd yn sicrhau bod y sawl sy'n gyfrifol, boed yn benaethiaid neu'n weithwyr, yn cael eu dal i gyfrif os oes unrhyw fethiannau. Byddwn yn sicrhau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru cadarn, cryf ac annibynnol fydd yn diogelu pob unigolyn sy'n derbyn gofal iechyd mewn ysbytai yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi AGGCC, fel bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno rhag blaen.

Mae Plaid Cymru yn cynnig Bil Atebolrwydd Meddygol, gan gynnwys dyletswydd o onestrwydd, fel bod rheidrwydd cyfreithiol ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddweud y gwir wrth y claf a'i deulu.



Bydd gofyn i holl adeiladau'r GIG fod yn ynni-effeithlon er mwyn lleihau gwastraff a sicrhau bod mwy o arian ar gael i ofalu am gleifion.

Mynediad at feddyginiaeth a thechnoleg

Bydd Plaid Cymru yn cadw presgripsiynau am ddim i bawb yng Nghymru ac yn sicrhau y gall mwy o bobl yng Nghymru gael cyffuriau a gymeradwywyd gan NICE.

Gallai gwella TG mewn gofal iechyd helpu i achub bywydau. Dyna pam ein bod yn cefnogi datblygu e-lechyd a Thelefeddygaeth i wella ansawdd a chyflymder gofal i gleifion, fel y buom yn pwysleisio yn ein cytundeb ar y Gyllideb yn 2013.

Mae ar ein staff clinigol ac ymchwilwyr meddygol angen y wybodaeth fwyaf cynhwysfawr a chyfoes sy'n seiledig ar dystiolaeth, ac y mae Plaid Cymru yn cefnogi'r ymgyrch All Trials am gyhoeddi pob treial clinigol.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau fod Cymru yn gwella ei chyfran o gyllid ymchwil iechyd, gan ddenu ymchwilwyr o safon i Gymru.

Iechyd Meddwl

Er mwyn i bobl â chyflyrau iechyd meddwl gael mwy o help gyda diagnosis, triniaeth a chynghor, byddwn yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl yn y gweithle ac mewn cymdeithas.

Bydd Plaid Cymru yn cynyddu mynediad at therepiâu siarad mewn cwnsela, yn ogystal â chyllido cefnogaeth i anhwylderau bwyta, a thriniaeth cyffuriau ac alcohol. Byddwn hefyd yn cynyddu adnoddau i wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru i drin problemau iechyd meddwl pobl ifanc.

Iechyd Cyhoeddus

Mae chwaraeon ac ymarfer corff nid yn unig yn cyfrannu at les a hapusrwydd pobl – maent hefyd yn ymestyn ac yn gwella bywydau, ac y maent yn dda i'n gwlad o ran

cael gweithlu iach a lleihau'r baich ar wasanaethau iechyd. Byddwn yn ei gwneud yn haws i bobl gyrraedd cyfleusterau lles a bod yn egniol er mwyn atal problemau iechyd.

I leihau swm y siwgr sy'n cael ei fwyta, lleihau gordewdra ac ymdrin â diabetes, mae Plaid Cymru yn cefnogi treth ar ddiodydd llawn siwgr a bydd yn gweithio gyda chynhyrchwyr i leihau'r siwgr mewn bwyd a diod.

Yr ydym yn cefnogi cyflwyno pecynnu plaen ar gynhyrchion tybaco a mesurau a fwriadwyd i leihau bod yn gaeth i ysmegu. Byddwn yn cyflwyno rheoleiddio llymach, gan gynnwys rheolau marchnata llymach ar e-sigarets.

Byddwn yn cyflwyno isafswm pris o 50c yr uned ar werthiannau alcohol, gan fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan ddiodydd rhad ond meddwol iawn, lleihau ymddygiad treisgar, meddw.

Gweithio dros Ddyfodol ein Plant Addysg



“Ein hased fwyaf, fel ym mhob gwlad, yw ein pobl. Bydd sut a beth y gwnawn fuddsoddi yn ein pobl ifanc yn arbennig yn cael effaith ar ein gobeithion am ddegawdau.”

Leanne Wood AC, Arweinydd Plaid Cymru

Yr ydym eisiau gweld Cymru yn adennill ei henw da fel gwlad sydd ar flaen y gad o ran rhagoriaeth addysgol. Mae Plaid Cymru eisiau gweld ein holl blant a'n pobl ifanc yn cyrraedd eu llawn botensial. Byddwn yn sicrhau safonau uchel o ddysgu, y cyfarpar diweddaraf a'r canlyniadau gorau oll i bob un plentyn.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- I sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl, fe wnaethom sicrhau bargaen cyllid i bob disgybl trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2014. Rydym nawr eisiau sicrhau bod y cyllido hwn yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i gefnogi plant o gefndiroedd dan anfantais i gyrraedd eu llawn botensial.
- Gwrthwynebodd Plaid Cymru system fandio ysgolion o'r dechrau oll achos ei fod yn creu tablau cystadleuol dan enw gwahanol. Arweiniodd ein gwrthwynebiad at i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i gynlluniau i gyflwyno'r rhain yn ysgolion cynradd ac yn y pen draw cafwyd gwared ar fandio mewn ysgolion uwchradd.
- Mewn llywodraeth fe wnaethom gyflwyno'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol fesur y galw am addysg Gymraeg. Mae'r Strategaeth hefyd yn gosod targedau ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Mae'r rheidrydd ar awdurdodau lleol i fesur y galw yn awr yn statudol dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion.
- Yr oeddem yn erbyn y dreth triwantiaeth – rhybuddion cosb sefydlog o hyd at £150 ar rieni plant sy'n chwarae triwant o'r ysgol – a hynny o'r cychwyn. Mae gwell cyfathrebu rhwng ysgolion a theuluoedd yn ffordd effeithiol o ymdrin ag absenoldeb o'r ysgol heb gosbi teuluoedd sydd yn aml yn fregus. Fe wnaethom sicrhau cytundeb gan Lywodraeth Cymru i adolygiad flwyddyn wedi'r dreth driwantiaeth.





Cefnogi Llwyddiant mewn Addysg

Byddwn yn darparu blwyddyn ychwanegol o ysgol i'n plant ieuengaf, gyda staff addysgol cymwys yn darparu dosbarthiadau i blant 3-4 oed.

Byddwn yn rhoi amser i'n hathrawon a'n cynorthwywyr dosbarth i ddysgu, fel y gallant ganolbwyntio ar sicrhau datblygu sgiliau craidd mewn ysgolion. Trwy weithio gydag undebau'r athrawon a staff, bydd Plaid Cymru yn lleihau biwrocratiaeth fel y gall prifathrawon arwain eu hysgolion, a bod mwy o amser yn cael ei dreulio yn dysgu plant, yn hytrach nac yn gwneud gwaith papur.

Byddwn yn gwella ansawdd hyfforddiant mewn swydd i athrawon ac yn sicrhau fod athrawon ym mhob rhan o Gymru yn gallu mynd at yr arferion gorau.

Byddwn yn trosglwyddo pwerau dros dâl ac amodau athrawon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ôl argymhelliad Comisiwn Silk.

Dim plentyn wedi ei adael ar ôl

Byddwn yn gosod y deilliannau dysgu i ysgolion, gan sicrhau'r canlyniadau TGAU gorau mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg, ond gan ganiatáu i ysgolion eu hunain bennu sut i gyrraedd y deilliannau hynny. Caniateir i'r ysgolion hynny sy'n llwyddo i gyrraedd eu deilliannau ddatblygu fel y gwelant sy'n addas, ond caiff ysgolion llai llwyddiannus gefnogaeth ychwanegol i ofalu na chaiff yr un plentyn ei adael ar ôl.

Bydd llai o arolygiadau ar ysgolion sy'n llwyddo, ond fe wnawn gyflwyno arolygiadau 'yn y fan a'r lle' i'r rhai nad ydynt yn cyrraedd eu potensial. Cyflwynir un

fframwaith cyson i asesu cynnydd plant trwy gydol eu gyrfa ysgol.

Byddwn yn creu rheoleiddiwr arholiadau annibynnol i adfer ffydd yn system arholiadau Cymru.

Er mwyn amddiffyn ein plant mwyaf bregus yn well, byddwn yn adolygu effeithiolrwydd darpariaeth amddiffyn plant i sicrhau cydweithredu effeithiol rhwng ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Byddai Plaid Cymru yn gwaredu ar ddadl cosb resymol, gan roi'r un diogelwch i blant yn y ddeddfwriaeth ac atal curo.

Dylai pob plentyn a pherson ifanc dderbyn rhaglen gynhwysfawr o addysg perthynas iach. Dylai gwerthoedd cydraddoldeb a pharch fod yn greiddiol i bob dim y mae ysgolion yn ei wneud i daclo bwlio rhywiaethol, hiliol, homoffobaidd a rhagfarnllyd.



Cwricwlwm a Chymwysterau

Bydd Cwricwlwm Cenedlaethol newydd yn sicrhau fod pob plentyn yn gadael addysg gyda dealltwriaeth gadarnhaol o hanes Cymru a diwylliannau eu cymunedau.

Bydd ysgolion yn sicrhau fod pobl ifanc yn datblygu sgiliau allweddol, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, sgiliau TG a sgiliau meddwl, a dealltwriaeth o newid hinsawdd a'r amgylchedd.

Mae'n hanfodol fod ein plant yn deall y dechnoleg sydd o'u cwmpas, trwy wersi codio a datblygu uwch-dechnoleg cyfrifiadurol, megis dyfais Raspberry Pi.

I wrthweithio'r diffyg cynyddol mewn sgiliau iaith, bydd Plaid Cymru yn sicrhau bod ieithoedd tramor modern yn cael eu dysgu o oedran cynnar ac yn cyflwyno TGAU gorfodol mewn iaith dramor fodern, fel y gall ein disgyblion gystadlu mewn economi byd-eang.

Mae Plaid Cymru eisiau i bob person ifanc aros mewn addysg neu hyfforddiant nes y byddant yn 18, fel y gallant gael y sgiliau iawn ar gyfer gwaith neu addysg uwch.

Cyllido

Yr ydym yn cydnabod yr effaith gaiff tiodi ar addysg plentyn a'i lwyddiant mewn bywyd, a'r effaith ar yr economi yn ehangach. Byddwn felly yn parhau i sicrhau bod disgyblion dan anfantais yn cael help i gyrraedd eu potensial llawn, fel y gwnaethom trwy gefnogi'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a thrwy roi mwy o gefnogaeth i ysgolion er mwyn sicrhau ymyriad cynnar effeithiol.

Bydd gofyn i bob awdurdod lleol Gynllun Strategol Addysg Gymraeg i ateb y galw am addysg cyfrwng Gymraeg yn eu sir a bod cyllid digonol yn cael ei ddarparu mewn awdurdodau addysg lleol a chonsortia i gyflwyno hyn, gan gynnwys y gofyniad am ysgolion newydd, staff ac adnoddau eraill lle bo angen hyn.

Bydd darpariaeth i blant gydag anghenion addysgiadol arbennig yn cael ei adolygu i sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithiol i ddisgyblion.

Bydd Plaid Cymru yn sefydlu rhaglen i ddatblygu ysgolion newydd a modern yn lle hen adeiladau ysgolion anaddas.

Byddwn yn sicrhau y gall ysgolion gydweithredu a dysgu o arferion gorau ei gilydd ac yn neilltuo cyllid fel bod modd cynllunio hyn.

Bydd Plaid Cymru yn parhau i wrthwynebu model yr 'ysgol rydd' o addysg a hybir yn Lloegr, ac ni fyddwn yn dilyn y model hwn yng Nghymru.



Gweithio dros Ddyfodol ein Plant



Addysg Uwch, Hyfforddiant a Sgiliau

“Ein gweledigaeth yw rhoi i'n holl bobl ifanc y lefel uchaf o sgiliau ag sydd modd, boed mewn addysg bellach neu uwch. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy ddarparu lleoliad addysgiadol i bobl ifanc nes eu bod yn 18 oed.

I Gymru fod ar ei gorau, mae arnom angen system addysg o'r radd flaenaf sydd yn rhoi i'n pobl y sgiliau maent eu hangen ar gyfer swyddi gyda sgiliau uchel sy'n talu'n dda.”

Simon Thomas AC Llefarydd dros Addysg

Mae Plaid Cymru eisiau cael mwy o bobl yng Nghymru i weithio, gyda gwell tâl ac amodau. Byddwn yn gwella cyfleoedd gwaith i bawb – helpu pobl ifanc i gael swyddi â thâl uwch, gwarantu cefnogaeth i bobl ifanc sydd yn mynd i'r byd gwaith am y tro cyntaf a'r rheini sydd yn ei chael hi'n anodd cael swydd.



Mike Parker
Ymgeisydd Plaid Cymru yng
Ngheredigion

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Sicrhaodd ACau Plaid Cymru gyllid i greu miloedd o brentisiaethau ar draws Cymru o 2013 ymlaen, a dël ar gyfer Parc Gwyddoniaeth Menai yng ngogledd Cymru, gan ddangos sut yr ydym yn rhoi gwerth ar addysg academaidd a galwedigaethol.
- Fel rhan o Lywodraeth Cymru'n Un, fe wnaethom sicrhau cyllid i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol – cynllun cyntaf erioed ar gyfer addysg uwch genedlaethol gyfrwng Cymraeg, gan hyfforddi ymchwilwyr a darlithwyr a chynnig cyrsiau addysg uwch iaith Gymraeg.
- Fe wnaethom wrthwynebu codi ffioedd dysgu yn San Steffan i £9,000 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau israddedig.
- Mewn llywodraeth, fe wnaethom gefnogi polisi i subsidio myfyrwyr o Gymru fel nad oedd newidiadau yn San Steffan yn effeithio arnynt.
- Fe wnaethom alw am gonsensws traws-bleidiol i sicrhau bod ffioedd dysgu yn gynaliadwy yn y tymor hir ac yn cwrdd ag anghenion Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, ac yn croesawu Adolygiad Diamond sydd yn draws-bleidiol.



Ffioedd Myfyrwyr

Cred Plaid Cymru, mewn egwyddor, y dylai addysg uwch fod am ddim i bawb, a byddwn yn parhau i anelu at ddarparu hyn.

Byddwn yn darparu cymhorthdal i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sydd am astudio yng Nghymru. Ni fydd grwpiau targed a'r sawl sy'n astudio pynciau hanfodol i economi Cymru ac amcanion cyhoeddus yn talu ffioedd dysgu yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n cymryd swyddi gofal iechyd allweddol, sy'n astudio gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg, a myfyrwyr o gefndiroedd arbennig o heriol.

Cefnogi ein Prifysgolion

Mae ein Sefydliadau Addysg Uwch yn chwarae rhan bwysig yn yr economiau lleol a chenedlaethol trwy ddenu buddsoddiad ymchwil, staff a myfyrwyr cymwys i'w hardaloedd. Mae prifysgolion Cymru ar hyn o bryd yn cael eu tangyllido. Byddwn yn gweithio gyda'n prifysgolion i gynyddu gallu a chyllid ymchwil, gan sicrhau yn arbennig fod prifysgolion Cymru yn cael cyfran deg o gyllid ymchwil seiliedig yn y

DG ac i gael y buddsoddiad gorau o gyllid Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd . Byddwn yn defnyddio hwn i alluogi ein prifysgolion i weithio'n agosach gyda diwydiant gan hybu ymchwil a datblygu yng nghyswllt prifysgolion, fel ym Mharc Gwyddoniaeth Menai a ddatblygir o ganlyniad i'n bargaen ar y Gyllideb yn 2012.

Byddwn yn darparu cyllid cynaliadwy tymor-hir i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan sicrhau bod addysg uwch ar gael yn rhwyddach yn Gymraeg, yn amodol ar werthuso llwyddiannus.

Datblygu Addysg Bellach

Mae Colegau Addysg Bellach yn chwarae rhan bwysig yn darparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc 16 oed a hŷn, ac fe fyddwn yn gweithio gyda'r colegau i ofalu bod y sector yn parhau i gynnig addysg a hyfforddiant gwych i ehangu cyfranogiad, ymdrin ag eithrio cymdeithasol a hybu adfywio economaidd.

Byddwn yn parhau i hybu prentisiaethau, yn enwedig Prentisiaethau Lefel Uwch, fel y cytunwyd yn ein Bargaen ar

Gyllideb Gymreig 2012, a dysgu mewn gwaith.

Mae Plaid Cymru yn parhau i weld gwerth enfawr yng nghymwysterau galwedigaethol ac anacademaidd a byddwn yn parhau i'w hyrwyddo trwy ein sector addysg uwch, gan ddarparu cyllid priodol ar gyfer hyfforddiant a chysiau i gynyddu sgiliau ein gweithlu.

Byddwn yn cyflwyno Gwasanaeth Dinasyddion, gan ganolbwyntio ar sgiliau a dysgu, fel bod pobl ifanc yn barod ar gyfer byd gwaith.

Gan ddefnyddio model y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn addysg uwch, bydd Plaid Cymru yn cynyddu'r ddarpariaeth o gyrsiau a thiworiaid Cymraeg mewn addysg bellach ledled Cymru, gan sicrhau fod pynciau galwedigaethol ar gael yn gyfartal i siaradwyr Cymraeg yn y Llwybrau Dysgu 14-19.

Rydym eisieu i'n dynion a'n merched ifanc fod yr un mor llwyddiannus yn eu haddysg bellach, a byddwn felly yn sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer darparwyr gwasanaethau addysg, hyfforddiant a gyrfaedd yn cynnwys dealltwriaeth o effaith rhywedd ar ddysgu a sut i ymdrin â hyn.

Gweithio dros Gymru Decach Helpu ein Pobl



“Cymerwyd dros £1 biliwn mewn taliadau lles allan o economi Cymru ers dechrau ymosodiad creulon y Toriaid ar bobl fregus yn 2010. Arian yw hwnnw a gymerwyd o bocedi pobl sy'n ceisio cael dau ben llinyn ynghyd. Ond mae wedi cael sgil-ffaith hefyd ar fusnesau a chymunedau lleol yn fwy cyffredinol. Dywed Plaid Cymru fod pobl eisoes wedi talu digon am farusrwydd y bancwyr. Fe gawsant hwy eu hachub. Mae'n hen bryd achub y bobl.”

Hywel Williams Ymgeisydd Plaid Cymru Arfon

Cred Plaid Cymru yn ein pobl, ac yr ydym eisiau rhoi'r cyfle gorau iddynt mewn bywyd. Byddwn yn helpu pobl i sefyll ar eu traed eu hunain a rhoi iddynt yr arfogaeth i lwyddo yn eu bywydau eu hunain.

Rhaid i unrhyw ostwng ar y diffyg beidio â chael ei wneud drwy gosbi'r mwyaf bregus mewn cymdeithas er mwyn talu am gamgymeriadau'r gwleidyddion a'r bancwyr.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Pleidleisiodd ASau Plaid Cymru yn erbyn y Bil Diwygio Lles a gyflwynodd lawer o'r mesurau mwyaf llym sydd wedi eu targedu ar bobl fregus, fel y 'Dreth Lloffydd.'
- Plaid Cymru a arweiniodd y gwrthwynebiad yn y Senedd i'r 'Dreth Lloffydd' trwy gynnal dadl a phleidlais diwrnod yr wrthblaid ar y mater.
- Pleidleisiodd ein ASau yn erbyn y toriad sylweddol i bob budd-dal i bobl oed gwaith a gyflwynwyd gan y Llywodraeth i gyfyngu ar y codiadau blynyddol mewn budd-daliadau i 1% yn unig, sy'n is na chwyddiant.
- Fe wnaethom wrthwynebu Cap Gwariant Lles Llywodraeth y DG, a all olygu bod budd-daliadau unigol yn cael eu torri heb ystyried unrhyw ddirwasgiad economaidd a chynnydd mewn diweithdra.
- Yr ydym wedi cyhoeddi cynlluniau i ddatganoli Canolfannau Byd Gwaith.





Polisi Lles

Byddwn yn dileu'r dreth lloffydd.

Ni ddylid gweithredu'r Credyd Cynhwysol hyd nes y cynhelir adolygiad annibynnol a chynhwysfawr. Os cyflwynir y Credyd Cynhwysol, yna mae Plaid Cymru yn cefnogi darparu taliadau wythnosol yn hytrach na misol ; taliadau yn uniongyrchol i unigolion yn hytrach nac aelwydydd, a'i fod ar gael i bawb, heb reidrydd i fynd at y rhyngwyd neu sgiliau TG. Yr ydym hefyd yn pryderu fod y cyfraddau treth am Gredyd Cynhwysol yn rhwystr i waith, a byddwn yn newid hyn.

Bydd Plaid Cymru yn paratoi am ddatganoli mwy ar les trwy ddatblygu fframwaith ar gyfer system gyflogaeth a budd-daliadau Gymreig, sydd yn cefnogi unigolion i gael gwaith addas fydd o les iddynt hwy a chymdeithas yn ehangach, gan ddwyn i mewn pobl anabl a grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl wrth gynllunio a datblygu system o'r fath.

Bydd Plaid Cymru yn gweithio i wneud i ffwrdd â'r angen am fanciau bwyd, tra'n cefnogi'r gwaith da maent yn wneud yn wyneb pwysau economaidd sydd ar bobl o du'r llywodraeth.

Bydd Plaid Cymru yn sicrhau adolygiad annibynnol ar ddefnydd sancsiynau budd-daliadau i sicrhau system nawdd cymdeithasol effeithiol a thrugarog.

Helpu pobl i waith

Bydd cynigion Plaid Cymru am system Canolfan Byd Gwaith Cymreig yn rhoi'r pwyslais ar helpu

pobl i waith yn hytrach na'u cosbi am yr anfanteision y maent yn wynebu.

Gyda chynnydd mewn tlodi mewn gwaith, yr ydym yn cydnabod mai'r ffordd orau o drin tlodi plant yw cael gwaith llawn-amser sy'n talu'n well yn hytrach na dim ond dod o hyd i swydd. Fodd bynnag, byddwn yn ymchwilio i weld sut y gellir defnyddio credydau treth yn well i roi diwedd ar dlodi plant.

Bargen deg i bensiynwyr

Bydd Plaid Cymru yn sefyll dros anghenion pensiynwyr.

Er mwyn rhoi terfyn ar dlodi pensiynwyr, byddwn yn gwneud y pensiwn un haen newydd yn Bensiwn Byw wedi i bawb wedi ei osod ar o leiaf gyfradd y Credyd Pensiwn, ac yn cefnogi symudiadau i ganiatau mynediad cynnar at bensiynau

Yr ydym yn gwrthwynebu codiadau yn oedran pensiwn y wladwriaeth ac y mae gennym bryderon mawr am y codiad yn yr oedran ymddeol ar gyfer gwasanaethau rheng-flaen

Byddwn yn ymchwilio i hawliau cyrchu pensiynau hyblyg i weithwyr hunangyflogedig fel y gallant gynilo am bensiwn heb aberthu hylifedd.

Trin Tlodi Tanwydd

Mae biliau tanwydd uchel yn taro llawer o bobl yn galed. Bydd Plaid Cymru yn sicrhau bod y Lwfans Tanwydd Gaeaf yn cael ei dalu i aelwydydd oddi ar y grid yn yr haf fel y gallant gael gwell gwerth am arian.

Byddwn yn parhau i bwysleisio ein hymgyrch 'Dod ar y Grid' i gynyddu nifer y bobl sydd ar y grid cenedlaethol, rheoleiddio prisiau oddi ar y grid a chefnogi pwrcau ynni cymunedol crynswth i ostwng biliau.

Byddwn yn sicrhau fod taliadau tywydd oer y gaeaf yn seiliedig ar dymhereddau lleol manwl gywir.

Gwneir i ffwrdd â chosbau am ddefnyddio mesuryddion talu-ymlaen-llaw am filiau ynni er mwyn helpu'r sawl sydd ar incwm isel neu sefydlog.

Byddwn hefyd yn cychwyn ymgyrch 'Hawliwch' newydd fel bod pawb sydd â hawl i fudd-daliadau yn eu hawlio, gan weithio ochr yn ochr â Chyngor Ar Bopeth, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i hybu hyn.

Cynhwysiant Ariannol

Byddwn yn helpu pobl sy'n mynd i ddyled trwy gyflwyno cap credyd ar fenthycwyr diwrnod tâl i atal cylch cas o fenthycna na ellir ei ad-dalu, a byddwn yn ymchwilio i dreth elw ar fenthycwyr diwrnod tâl y gellir ei ddefnyddio i hybu undebau credyd a benthyca cyfrifol.

Trwy ddysgu pobl o bob oed i drin arian, y gobaith yw y bydd cenedlaethau'r dyfodol wedi eu harfogi'n well i ddelio â'u sefyllfa ariannol, fel y bydd pobl yn llai dibynol ar ddyledion diangen.



Gweithio dros Gymru Decach Tai

“Mae Plaid Cymru eisiau gweld mwy o dai ar gael er mwyn gostwng cost rhenti a phrisiau tai yn y tymor canol. Rhaid seilio hyn ar anghenion cymunedau yn awr ac yn y dyfodol. Rhaid cynllunio tai newydd o gwmpas anghenion pobl – lle mae pobl eisiau byw a darparu llefydd mae pobl eisiau byw ynddynt – a chefnogi cynaliadwyedd y cymunedau presennol.”

Hyr Gruffydd AC, Llefarydd dros Gymunedau Cynaliadwy

Mae ansawdd tai pobl yn effeithio ar eu lles a'u hiechyd. Mae ar bawb angen cartref, ac fe wnawn yn siwr y gall Cymru ddarparu tai addas i bawb, waeth beth fo'u hoedran neu eu hincwm.





Cynllunio Tecach

Byddwn yn diwygio cynlluniau yng Nghymru i roi anghenion a budd lleol, cynaliadwyedd a'r effaith ar yr iaith Gymraeg wrth galon y system gynllunio newydd.

Tai Newydd

Byddwn yn gweithredu camau rheoli rhenti, gan leihau'r swm a werir ar fudd-dal tai, gan gydnabod effaith budd-dal tai ar greu swigen tai artiffisial a phrinder yn y cyflenwad tai.

Byddwn yn ymchwilio i weld sut y gellid defnyddio arbedion o fudd-dal tai a phwerau benthyca ychwanegol i gefnogi codi tai cyngor neu gymdeithasol, gan ddarparu ffrwd o incwm yn y tymor hir i awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai i gynnal a gwella eu stoc dai yn y dyfodol.

Mae Plaid Cymru wedi dadlau'n llwyddiannus, yn hytrach na chaniatáu i £70m y flwyddyn o renti tai cyngor Cymru gael ei dalu i'r Trysorlys yn Llundain, y gall awdurdodau lleol sy'n rheoli eu stoc tai eu hunain fuddsoddi ynddynt a chodi tai cyngor newydd. Byddwn yn sicrhau bod y System Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai yn gweithio er lles awdurdodau lleol Cymreig sydd wedi cadw gafael ar eu stoc tai cymdeithasol, ac yn parhau i gefnogi caffael lleol ar gyfer tai, gan ddefnyddio'r pecyn

gybodaeth i'zi er mwyn sicrhau'r lles economaidd a chymdeithasol lleol mwyaf. Defnyddir rhaglen seilwaith 'Adeiladu I Gymru' Plaid Cymru i helpu mwy ar awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i godi tai newydd ym mhob cwr o Gymru, ar sail angen lleol.

Fe fyddwn yn ceisio darganfod pwy sydd biau adeiladau presennol, gan gynnwys tai gwag, warysau a swyddfeydd nad ydynt yn cael eu defnyddio, a cheisio eu troi yn dai neu fannau defnyddiol eraill i gwrdd ag angen lleol.

Helpu Prynwyr a Thenantiaid

Byddwn yn ymestyn y cynllun HomeBuy i ganiatáu i brynwyr tro cyntaf gael troedle ar yr ysgol dai, gyda meini prawf i helpu trigolion lleol i brynu yn eu tref neu bentref. Byddwn yn ymchwilio i'r modelau prynu tai sydd ar waith yn yr Alban a Chanada, fel mai'r sawl sy'n tynnu'n ôl o brynu tŷ, nid y prynwr, sy'n talu ffioedd cyfreithiol.

Yr ydym yn cefnogi cyflwyno treth cyngor uwch ar ail gartrefi i fyny at 200%, yn enwedig lle mae prynu ail gartrefi yn anffurfio'r farchnad, gan ei gwneud yn anos i drigolion lleol gael troedle ar yr ysgol eiddo.

Byddwn yn helpu i ostwng biliau tanwydd pobl trwy wneud addasiadau i dai fel rhan o Fargen Werdd Gymreig ac yn helpu

perchenogion tai preifat gyda gostyngiad mewn TAW ar drwsio ardystiedig i dai.

Byddwn yn cryfhau hawliau tenantiaid trwy ofalu bod darpariaethau Deddf Tai yn diwygio tenantiaethau ac fe wnawn yn siwr fod rheoliadau i landlordiaid yn rhoi gwasanaeth teg i denantiaid a landlordiaid. Byddwn yn sefydlu isafswm rhesymol i hyd tenantiaeth. Deuddeng mis fydd hyn i'r rhai a gartrefwyd yn y sector rhentu wedi iddynt fod yn ddigartref.

Wedi i ni gyflwyno'r Gronfa Gofal Canolraddol yng Nghyllideb 2013, bydd Plaid Cymru yn parhau i hybu tai wedi eu haddasu sy'n caniatáu i drigolion ddewis aros yn eu cartrefi eu hunain neu mewn llety wedi ei godi yn arbennig, yn hytrach na symud i mewn i gartref gofal. Byddwn yn parhau i hybu tai Gofal Ychwanegol a byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod addasiadau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Gofal a Thrwsio yn cael eu gweithredu yn effeithiol a bod y stoc dai yn cael ei chynnal yn dda.

Bydd Plaid Cymru yn mabwysiadu ymagwedd ataliol at daclo digartrefedd, gan flaenoriaethu ymyrraeth gynnar. Bydd hyn yn ein galluogi i waredu yn raddol ar angen blaenoriaethol a bwriadoldeb yn y system gefnogaeth fel bod pawb yn cael help.

Gweithio dros Gymru Ddiogelach Trosedd a Chyfiawnder



“Nawr fod Cymru yn gwneud ei deddfau ei hun, mae angen amlwg am awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig i adlewyrchu hyn, a dylai gael ei gyflwyno rhag blaen, ac yn sgil hynny, pwerau plismona a chyfiawnder troseddol. Yn ein barn ni, cyfiawnder sy'n cael ei weinyddu yn lleol sydd orau.”

Eifyn Llwyd AS

Mae Plaid Cymru eisiau Cymru fwy diogel. Byddwn yn rhoi hawliau cryf i ddiodefwr trosedd, tra'n mynd i'r afael ag achosion troseddu i'w leihau ledled Cymru. Er mwyn gwneud hyn, rhaid gwneud penderfyniadau am blismona a'r drefn cyfiawnder droseddol yng Nghymru, fel y gallwn osod ein blaenoriaethau dros gadw ein strydoedd yn saff. Byddai cyfiawnder datganoledig yn ein galluogi i ddarparu dedfrydu mwy priodol, yn cynnwys dargyfeirio pobl ifanc a'r bobl hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl at opsiynau amgen, nid dalffa.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Dangosodd AS Plaid Cymru Eifyn Llwyd sut y gall Plaid Cymru ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DG, drwy frwydro yn llwyddiannus i gael cyfreithiau newydd i ddiogelu menywod rhag stelcio a thrais domestig ym Mesur Diogelu Rhyddid 2012, ac ym Mesur Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol eleni.
- Rydym yn gyson wedi galw am ddatganoli pwerau dros gyfiawnder troseddol i Gymru, tra'n dadlau dros ffordd Gymreig o drefnu cyfiawnder a phlismona sydd yn canolbwyntio ar atal trosedd.
- Fe wnaeth Plaid Cymru wrthwynebu yn gyson cau llysoedd ynadon, preifateiddio'r gwasanaeth prawf a thoriadau i gymorth cyfreithiol. Mae'r rhain i gyd yn cyfyngu ar hawliau pobl i gyfiawnder teg.
- Mae Eifyn Llwyd AS wedi cadeirio Grŵp y Cadeirio'r Grŵp Seneddol Undebau Cyfiawnder drwy gydol Senedd 2010-2015, ac wedi bod yn Is-Gadeirydd Pwyllgor Dethol Cyfiawnder.





Atal Troseddau

Bydd ein polisi cyfiawnder yn canolbwyntio ar atal, gan ddefnyddio cyfiawnder adferol i wneud iawn, a'r gwasanaeth prawf i adsefydlu troseddwyd yn hytrach na dim ond cynnig dedfrydau byr aneffeithiol, gan y profwyd nad yw'r rhain yn gweithio. Byddwn hefyd yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl ymysg carcharorion er mwyn eu hatal rhag troseddau yn y dyfodol.

Cefnogi Hawliau Dioddefwyr

Byddwn yn cyflwyno Mesur Hawliau Dioddefwyr ac yn hyfforddi pob gweithiwr proffesiynol yn y system cyfiawnder troseddol fel na fydd modd anwybyddu nac anghofio dioddefwyr troseddau.

Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth gryfach i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref, gan roi i'r heddlu a'r llysoedd y grym i fynd i'r afael â phob math o gam-drin, a all gynnwys ymddygiad rheoli a gorfodaethol yn ogystal â thrais.

Byddwn yn gwrthdroi'r diwygiadau Cymorth Cyfreithiol i ganiatáu mynediad teg at gyfiawnder.

Does dim cyfleusterau carchar i garcharorion benywaidd yng Nghymru a chyfleusterau cyfyngedig sydd i droseddwyd ifanc. Byddwn yn nodi safleoedd addas a chyllid i gwrdd â'r diffyg hwn. Mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu datblygu 'uwch-garchar' yn Wrecsam sydd wedi ei godi ac a gaiff ei redeg yn breifat, ac nad yw'n adlewyrchu anghenion gogledd Cymru.

Byddwn yn helpu carcharorion i ddatblygu sgiliau darllen a llythrennedd, gan y bydd dysgu'r sgiliau hyn yn eu helpu i gael gwaith ymaith oddi wrth fyd troseddau

Mae'r polisi presennol ar gyffuriau yn ddiangen yn criminaleiddio llawer o bobl ac yn ddefnydd

gwael o adnoddau prin. Trwy ddatgrimineiddio defnydd o ganabis a rhoi mwy o adnoddau i mewn i atal, buasem am leihau'r defnydd o bob cyffur niweidiol, gan ganolbwyntio adnoddau ar y sawl sy'n pedleryd cyffuriau, a helpu defnyddwyr a'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau.

Defnyddio Sylweddau

Mae problemau a marwolaethau yn sgil defnyddio sylweddau yn fwy amlwg yng Nghymru na rhannau eraill yn y DG. Mae Plaid Cymru eisiau lleihau defnyddio sylweddau problematig drwy fuddsoddi mewn strategaeth defnyddio sylweddau hir dymor sydd yn canolbwyntio ar leihau niwed drwy amrywiaeth ehangach a rhaglenni addysg sydd yn trin defnyddwyr sylweddau problematig fel cleifion yn hytrach na throseddwyd.

Mae 'legal highs' wedi goddiweddwyd y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau. Mae Plaid Cymru yn cefnogi asesiadau effaith i adolygu'r dystiolaeth ynghylch ei effeithiolrwydd wrth ddelio â phroblemau sy'n berthnasol i sylweddau heddiw.

Rydym yn cefnogi dadgrimineiddio canabis. Dylwn arallgyfeirio ffynonellau sydd yn cael eu defnyddio i blismona anghyfreithioldeb canabis i addysg a rhaglenni gwybodaeth sydd â'r bwriad o gadw pobl yn ddiogel.

Gwasanaeth prawf a phlisma mwy effeithiol

Gwrthwynebodd Plaid Cymru yn gyson breifateiddio'r gwasanaeth prawf. Byddwn yn anelu at ddwyn gwasanaeth prawf Cymru yn ôl dan reolaeth gyhoeddus er mwyn cael y canlyniadau gorau i'n cymunedau.

Does gan gymhelliant profit dim lle yn y System Drosedd a Chyfiawnder.

Byddwn yn dileu swyddogaeth y

Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ac yn trosglwyddo goruchwyliaeth dros yr heddlu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chraffu effeithiol gan ACau.

Byddwn yn parhau i gefnogi mentrau gwrth-drosedd traws-ffiniol gyda chudd-wybodaeth yn sail iddo ar draws Ynysoedd Prydain, Ewrop a'r byd, gyda phwyslais arbennig ar atal terfysgaeth a rhoi terfyn ar fasnachu pobl.

Byddwn yn atal asiantwyr cudd rhag ffurfio perthynas fel rhan o'u gwaith cudd, gan achosi loes i'r rhai a dwyllwyd a thansellio hyder yn y gwasanaethau diogelwch.

Cyfiawnder a'r Llysoedd

Byddwn yn cyflwyno awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig i gyfundrefnu ein cyfreithiau ein hun. Bydd hyn yn ei wneud yn glir y corff cynyddol o ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol i Gymru yn unig.

Yr ydym yn cefnogi'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a byddwn yn gwrthwynebu unrhyw symudiadau gan Lywodraeth y DG i dynnu allan o'r rhain.

Yn dilyn y toriadau mawr i nifer y llysoedd ynadon yng Nghymru, ac adeiladau cyhoeddus eraill bydd Plaid Cymru yn caniatáu cynnal gwrandawriadau mewn llefydd eraill fel siambrau cyngor, lle be hyn yn ddiogel a phriodol.

Byddwn yn creu llysoedd cyn-filwyr i gydnabod yn well y problemau penodol a wynebir gan gyn-aelodau o'r lluoedd arfog.

Gweithio dros Gymru Amddiffyn



“Mae Trident yn elffant gwyn sy'n costio £100 biliwn a byddai'n well gwario'r arian ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a diogelu swyddi.”

Elfyn Llwyd AS



Cred Plaid Cymru y dylem edrych ar ôl ein lluoedd arfog a chyn-filwyr trwy sicrhau byd heddychlon a diogel, nid trwy eu gwneud yn agored i niwed yn ddiangen.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mae Plaid Cymru yn gyson wedi gwrthio am ddiwedd ar arfau niwclear sydd byth yn mynd i gael eu defnyddio.
- Rydym wedi galw yn gyson am Aelod Cabinet i Gyn-Filwyr i ymgysylltu ar ran cyn-filwyr, y mae degau o filoedd ohonynt o Gymru, er mwyn gwneud yn siwr bod cyn-filwyr yn derbyn cefnogaeth lawn.
- Mor bell yn ôl â 2010, cyhoeddodd Plaid Cymru bapur yn amlinellu sut mae cyn-filwyr wedi eu hanghofio gan Brydain, yn amlinellu sut y gallwn ni gefnogi ein cyn-filwyr yn ôl i fywyd sifil a'u helpu yn hwyrach yn eu bywydau.
- Fel aelod o Ymchwiliad Nutting, archwiliodd Elfyn Llwyd AS i mewn i'r mater o gyn-filwyr yn y carchar, rhywbeth a gododd yn aml yn Nhŷ'r Cyffredin, yn gweithio gydag undeb yr heddlu, NAPO.
- Roedd gwelliannau Plaid Cymru i Ddeddf y Lluoedd Arfog 2011 yn cynnwys cynigion i ddeddfwriaethu ar gyfer y Cyfamod Milwrol, cytundeb heb ei ysgrifennu yn y gorfennol bod Prydain yn mynd i ofalu am gyn-filwyr pan maent yn dychwelyd.



Trident

Yr ydym yn gwrthwynebu Trident newydd diangen a gwastraffus, y rhagwelir fydd yn costio dros £100bn yn ei oes, ond na ellir fyth ei ddefnyddio mewn rhyfeloedd confensiynol. Yr ydym hefyd yn gwrthwynebu adleoli arfau niwclear i ddyfroedd Cymru, fel yr awgrymodd Arweinydd Llafur yng Nghymru.

Ein Lluoedd Arfog

Byddwn yn ystyried seilio unedau'r fyddin Gymreig yng Nghymru er mwyn gwella cysylltiadau â chymunedau lleol a helpu teuluoedd milwyr.

Gofalu am ein Cyn-Filwyr

Mae Plaid Cymru wedi gwneud llw i'n cyn-filwyr, gan addo gweithio er eu lles .

Byddwn yn darparu gwell ôl-ofal a lles i aelodau o'r lluoedd arfog wedi iddynt adael y fyddin, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, gofal iechyd a chwmsela trwy gryfhau'r Cyfamod Milwrol trwy Ddeddf Lles Milwrol, gan ddarparu gwell ôl-ofal a lles i filwyr wedi iddynt adael y lluoedd arfog, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, gofal iechyd

a chwmsela. Yr ydym yn cefnogi cyflwyno Gweinidog Cyn-Filwyr yng Nghabinet y DG, gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros bob mater sydd yn effeithio ar fywydau cyn-filwyr a gweithredu'r Cyfamod Milwrol, mewn cydweithrediad ag unigolyn enwebedig cyfrifol yn y gweinyddiaethau datganoledig.

Byddwn yn helpu i leihau problemau gydag alcohol ymysg milwyr a chyn-filwyr diweddar trwy gefnogi strategaeth dibyniaeth ar alcohol.

Yr ydym eisiau gweld ymchwil pellach i driniaeth effeithiol i gyn-filwyr Rhyfel y Gwlff a rhannu datblygiadau ymchwil , ac fe wnawn yn siwr fod cyn-filwyr yn derbyn gofal iechyd meddwl priodol ac arbenigol.

Yr ydym yn cefnogi cyflwyno pabi coch Cymreig i anrhydeddu ein cyn-filwyr, yn yr un modd ag y mae pabi Albanaidd.

Yr ydym yn cefnogi Sefydliad Heddwch Cymreig i ymchwilio, cynghori a bod yn sail o wybodaeth i lunwyr polisi am ganlyniadau eu penderfyniadau ac i hybu datrys anghydfod. Yr ydym eisiau gweld llw heddwch siflaidd y CU i weithio mewn ardaloedd lle gall anghydfod godi, gan ennyn hyder ac atal trais.

Os bydd Llywodraeth y DG neu

unrhyw gorff arall sy'n cynrychioli pobl Cymru yn bwriadu ymyrryd yn filwrol, dylai'r Senedd gynrychioliadol gytuno ar hyn, gyda chaniatad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a dylai fod yn gyfreithlon yn ôl confensiwn y CU.

Taclo Eithafiaeth

Bydd Plaid Cymru yn gweithio gydag unigolion ar draws ein cymunedau, beth bynnag eu cefndir, i hyrwyddo hunaniaeth sifig Gymreig. Bydd hyn yn cael ei hyrwyddo drwy ysgolion, gyda sefydliadau ffydd a chymunedol, drwy annog pawb yng Nghymru i gyfrannu yn ein cymdeithas Cymreig ehangach, yn gwrth-gyferbynnol i chynigion ymrannol a gwarthnodol.

Amddiffyn-Seiber

Mae cynyddu dibynadwyedd ar dechnoleg yn gadael gwledydd yn agored i bwerau tramor heb yr angen am arfau confensiynol. Byddwn yn cryfhau galluoedd amddiffyn seiber-ddiogelwch i gynyddu diogelwch ac atal seiber-ymosodiadau, heb gyfaddawdu preifatrwydd unigol a gan gydnabod bod y gwasanaethau cudd-wybodaeth gyda phwerau mwy na digonol i atal ymosodiadau terfysgol.

Gweithio dros Gymru

Polisi Rhyngwladol a Diogelwch



“Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo yn ddiwyro i hawliau dynol. Rydym yn blaid rhyngwladol. Yr ydym am i Gymru gymryd ei lle haeddiannol ymysg teulu y cenhedloedd, ym Mhrydain, yn Ewrop a ledled y byd.”

Leanne Wood AC, Arweinydd Plaid Cymru

Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r hawl ryngwladol i ymreolaeth i genhedloedd ac yn credu mewn gwella ein byd trwy sicrhau mwy o gydraddoldeb ledled y byd a rhoi terfyn ar dlodi.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mae Plaid Cymru yn cefnogi trafod heddychlon yn hytrach na rhyfela dinistriol ac yn cefnogi rheolaeth cyfraith ryngwladol drwy'r Cenhedloedd Unedig.
- Fe wnaethom drio uchelgyhuddo Tony Blair dros ei oresgyniad anghyfreithlon yn Irac ac rydym yn ffieiddio'r ffaith bod cyhoeddi Adolygiad Chilcot wedi ei ohirio tan ar ôl yr etholiad.
- Mae Plaid Cymru wedi galw yn gyson am roi terfyn ar rwystrau yn Gaza ac am ateb dwy wladwriaeth i Israel a Phalestina.
- Mae Plaid Cymru wedi cefnogi hawliau lleiafrifoedd ym mhob rhan o'r byd, gan gynnwys y Cwrdaid, Tamils ac yng Ngorllewin Sahara ymhlith eraill.



Gweithredu ar Hawliau Dynol

Does dim esgus dros barhad anghydraddoldeb ac anghyfiawnder ledled y byd.

Yr ydym yn gwrthwynebu meddiannaeth a gorthrwm anghyfreithlon. Yr ydym yn cefnogi gweithredu rhyngwladol cyfreithiol trwy'r Llys Troseddau Rhyngwladol yn erbyn llywodraethau unrhyw wlad sydd yn treisio hawliau dynol.

Yr ydym eisiau gweld cyhoeddi Ymchwiliad Chilcot yn llawn fel y gall y cyhoedd weld gwirionedd sut a pham y cymerodd y DG ran yn yr ymosodiad anghyfreithlon ar Irac. Gwrthwynebodd Plaid Cymru y rhyfel anghyfreithlon hwn ar y pryd, gydag AS Plaid Cymru Adam Price yn ceisio uchelgyhuddo Tony Blair am ei droseddau rhyfel.

Yr ydym yn cefnogi hawl pobloedd ledled y byd i ymreolaeth ac i benderfynu drostynt eu hunain i ddod yn genedl annibynnol ymreolaethol, gan gydnabod fod sofraniaeth yn gorwedd gyda'r

bobl ac y dylid ei ddefnyddio fel y mynnant, gan sicrhau bod unrhyw refferendwm neu bleidlais yn cydymffurfio â safonau cydnabyddedig rhyngwladol.

Yr ydym yn cefnogi'r Ddeddf Hawliau Dynol a byddwn yn gweithio gyda mudiadau rhyngwladol i sicrhau fod hawliau LGBT yn cael eu deall a'u gweithredu ledled y byd.

Pwysigrwydd Cymorth Rhyngwladol

Ni fydd methiant i helpu'r byd sy'n datblygu yn gwneud dim ond tanio dicter, trais ac ymraniadau.

Rhaid helpu gwledydd i ddatblygu eu llwybr eu hunain allan o dlodi ac yr ydym yn cefnogi deddfwriaeth i fynnu darparu 0.7% o Gynnyrch Gros Cenedlaethol y dylid ei ddarparu mewn cymorth rhyngwladol i helpu gwledydd i ddatblygu eu llwybr eu hunain allan o dlodi. Rhaid cadw llygad barcud ar y cyllid hwn gan gyrrff annibynnol i osgoi camddefnydd.

Credwn bod angen gosod nod i leihau anghydraddoldeb gartref a thramor. Yn dilyn Nodau Datblygu'r Mileniwm, rhaid gosod nod cryf wedi 2015, sydd hefyd yn cydnabod effaith newid hinsawdd ar dlodi, a phwysigrwydd glanweithdra. Rhaid i'r nodau hyn gael eu parchu gan fudiadau rhyngwladol, gan gynnwys y rhai y tu allan i'r sector ddatblygu, a rhaid i fusnesau chwarae eu rhan yn cwrdd â'r nodau hyn.

Bydd Cymru yn darparu cymorth dyngarol hyd eithaf ein gallu lle bo angen, ac yn derbyn ffoaduriaid lle bo hynny'n briodol ac yn bosib.

Rhaid cryfhau cytundebau rhyngwladol ar werthu arfau er mwyn cyfyngu mynediad at arfau angheuol, yn enwedig y rhai a fwriedir i orthrymu sifiliaid, ac yr ydym am roi diwedd ar hybu a gwerthu arfau i wledydd unbenaeathol.

Byddwn yn sicrhau cydweithredu rhyngwladol i atal caethwasiaeth fodern, anffurfio organau rhywiol menywod (FGM), seibr-drosedd, a throseddau traws-wladol difrifol eraill.

Gweithio dros Gymru yn Ewrop



“Yn awr yn fwy nac erioed mae arnom angen cyllid Ewropeaidd i gefnogi economi Cymru a dwyn yma y swyddi sydd arnom eu hangen. Mae bron i 200,000 o swyddi yng Nghymru eisoes yn dibynnu ar yr UE – tua 1 o bob 7 swydd. Ac y mae masnach rhwng Cymru a'r UE yn werth £5 biliwn. Nod Plaid Cymru yw i Gymru fod yn wlad gyfartal â'r holl wledydd eraill sydd yn aelodau'r UE. Yna gallwn greu swyddi tymor-hir cynaliadwy i wneud Cymru yn genedl lwyddiannus.”

Jill Evans ASE

Mae Plaid Cymru eisiau i Gymru fod yn wlad annibynnol yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae Cymru ar ei hennill o fod yn aelod ac ni wnawn beryglu cannoedd o filoedd o swyddi yng Nghymru trwy adael.

Llais Cymru yn Ewrop

Mae Plaid Cymru eisiau i Gymru fod yn wlad annibynnol, yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd gyda sedd yn y Genhedloedd Unedig. Credwn y dylai Cymru gael llais ar y prif fwrdd ac i Gymru gael ei chynrychioli yn uniongyrchol, yn hytrach na chael Llywodraeth y DG yn siarad ar ein rhan - yn aml yn groes i'n buddiannau cenedlaethol Cymreig.

Byddai gan Gymru annibynnol sedd ar Gyngor yr UE, Comisiynydd yr UE a mwy o

Aelodau Senedd Ewrop yn cynrychioli Cymru. Gan bod Cymru yn elwa o aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, bydd Plaid Cymru yn parhau i wneud yr achos dros i Gymru fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Os cynhelir refferendwm ar aelodaeth y DG o'r Undeb Ewropeaidd, yna ni ddylid tynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd oni chefnogir hyn gan y pedair cenedl yr ymgynghorwyd â hwy.

Mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu 'dychweliad' pwerau dros gyllid rhanbarthol i'r DG. Dylai cyllid i Orllewin Cymru a'r Cymoedd

barhau i fynd yn uniongyrchol i Gymru, nid i San Steffan iddynt hwy ei ddosbarthu. Rydym yn mynnu na ddylai unrhyw ail-drafod gyda'r Undeb Ewropeaidd dros bwerau wanbau buddiannau Cymru. Rhaid i unrhyw ail-drafod gynnwys trosglwyddo pwerau yn uniongyrchol o Frwsel i Gaerdydd a'r llywodraethau datganoledig eraill.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r Polisi Amaethyddol Cyffredin sydd yn cynnal amaethyddiaeth Gymreig.



Diwygio

Mae Plaid Cymru yn blaid sydd yn cefnogi Ewrop ond yr ydym yn feirniadol o lawer agwedd ar yr Undeb a dyna pam fod angen dadl ynghylch ei dyfodol. Mae modd gwneud arbedion mewn llawer lle er mwyn gwario'r arian mewn manau eraill.

Byddwn yn gweithio tuag at 'Bennod Gymdeithasol Newydd' sydd yn adlewyrchu realiti'r Undeb Ewropeaidd wedi'r dirwasgiad economaidd a'r angen i Ewrop gefnogi ei phoblogaeth, nid y corfforaethau economaidd neo-ryddfrydol sydd heb gyfrifoldeb i'r bobl.

Byddwn yn pwyso ar i Lywyddiaeth Undeb Ewropeaidd y DG yn 2017 i weithio er mwyn buddiannau Cymru, gan gynnwys croesawu uwch-gynhadledd ryngwladol o bwys yng Nghymru a rhannu trafodaethau ynghylch blaenoriaethau rhwng llywodraethau'r DG a'r rhai datganoledig fel bod cyfnod y Llywyddiaeth er budd cenedlaethol Cymru.

Byddwn yn parhau i bwysu am gau'r ail Senedd Ewropeaidd ddiangen yn Strasbourg sydd yn costio £120m y flwyddyn i'w rhedeg ac sy'n defnyddio 19,000 tonn o garbon bob blwyddyn.

Yr ydym yn parhau i wrthwynebu'r cytundeb masnach rydd rhwng yr UE ac UDA, y Bartneriaeth Fuddsoddi a Masnach Trawsiwerydd. Rydym yn pryderu ei bod yn rhoi gormod o rym yn nwylo corfforaethau rhyngwladol, ac yn bygwth gwahanau ein sefydliadau democrataidd a thanseilio gwelliannau yr ymladdwyd yn galed amdanynt mewn gwasanaethau cyhoeddus, eiddo deallusol, diogelwch bwyd, safonau iechyd ac amgylcheddol. Yr ydym yn parhau i wrthwynebu unrhyw ran o'r fargen hon allai arwain at breifateiddio'r GIG.

Gweithio dros Gymru Mudo



“Cenhadaeth Plaid Cymru – ar bob lefel o lywodraeth – yw hyrwyddo budd cenedlaethol Cymreig mewn ysbryd eangfrydig o undod a chynhwysedd. Cenedlaetholdeb sifig yw ein hun ni nad yw’n gwahaniaethu rhwng cred na tharddiad na chrefydd, dim ond rhwng y rheiny sydd eisiau gweld Cymru yn llwyddiant rhyngwladol a’r rhai sydd eisiau ein dal yn ôl.”

Leanne Wood AC, Arweinydd Plaid Cymru



Mae Plaid Cymru yn blaid i bawb sydd yn byw yng Nghymru. Rydym eisiau sicrhau’r ansawdd gorau o fywyd i bawb yma – mae hynny yn golygu cyflogi arbenigwyr o’r radd flaenaf a’r rhai sy’n gallu rhedeg ein gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â chroesawu’r rhai sydd eisiau bod yn rhan o’n gwlad.





Byddwn yn creu Gwasanaeth Mudo Cymreig i sicrhau fod mudo yn cwrdd ag anghenion Cymru ac yn cyflwyno rhestr o swyddi lle mae prinder sgiliau nad ydynt yn cael eu hateb ar hyn o bryd gan weithwyr Cymru a cheisio denu pobl o wledydd eraill gyda'r sgiliau hynny, gan gynnwys rhai yn y gwasanaeth iechyd ac mewn technoleg.

Byddwn yn ail-gyflwyno fisa gwaith ôl-astudio am ddwy flynedd i fyfyrwyr sydd wedi graddio o brifysgolion Cymru fel y gallant ddefnyddio eu sgiliau i gyfrannu i economi Cymru a chreu mwy o swyddi yng Nghymru.

Byddwn yn sicrhau llais Cymreig yn natblygu polisi mudo'r DG trwy gyfarfod yn gyson â'r Pwyllgor Cyngor Mudo i drafod anghenion Cymru.

Dylai'r holl wasanaethau integreiddio i ffoaduriaid a mudwyr eraill yng Nghymru fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, a chael y cyllid priodol gan Lywodraeth y DG, gan gydnabod diwylliant a chymdeithas sifig unigryw a gwahanol Cymru.

Caiff pawb sy'n newydd i Gymru, o ba bynnag wlad y deuant, gyfle i ddysgu Cymraeg a Saesneg a chael eu hannog i gymryd rhan yn ein cymdeithas.

Fe wnawn Gymru yn Wlad Nodded, fel ein bod yn cymryd ein cyfran deg o bobl a ddadleolwyd, fel ffoaduriaid o ryfeloedd yn Syria ac Irac, a sicrhau eu bod yn cael bywyd sefydlog a sicr.

Dylid caniatáu i Lywodraeth Cymru bennu Noddwyr Mewn-fudwyr yng Nghymru.

Byddwn yn cryfhau Deddf Trwyddedu Gangfeistri trwy sicrhau na ellir rhoi anfantais annheg i weithwyr mudol dros weithwyr lleol.

Byddwn hefyd yn gweithio ar draws y DG a'r Undeb Ewropeaidd i atal caethwasiaeth fodern a sicrhau bod digon o adnoddau yn cael eu neilltuo o ymchwiliadau a chefnogi'r sawl sy'n dioddef hyn.

Byddwn yn cefnogi adolygiad annibynnol o'r Trothwy Ariannol (Isafswm Incwm) er mwyn sicrhau bod teuluoedd gyda chymheiriaid o genhedloedd heb fod yn yr UE/EEA gydag incwm sefydlog a rhesymol yn cael caniatâd i fewnfudo i'r DG, fel sy'n cael ei gefnogi gan Gomisiynydd Plant Cymru.



Gweithio i Gysylltu Cymru Trafnidiaeth

“Mae diffyg buddsoddi mewn seilwaith yn mygu pob ymdrech i hybu ein heconomi. Os yw pobl Cymru eisiau gwell gwasanaethau, siwrneiau cynt a chymunedau sydd wedi eu cysylltu'n well, dylent gefnogi ymdrechion Plaid Cymru i sicrhau cyllid trafndiaeth teg i'n cenedl.”

Jonathan Edwards Ymgeisydd Plaid Cymru Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Mae ar Gymru angen system drafnidiaeth deilwng o'r 21ainganrif. Byddwn yn ei gwneud yn haws i bobl deithio i bob rhan o Gymru – ar gyfer gwaith, i ddibenion teulu a hamdden, a'i gwneud mor fforddiadwy ag sydd modd.

Bydd gwella cludiant cyhoeddus yn helpu i leihau allyriadau carbon ac yn diogelu Cymru rhag prinder tanwydd yn y dyfodol.

Rhaid i Gymru gael ei chyfran deg o'r arian sy'n cael ei wario ar fuddsoddi mewn cludiant cyhoeddus yn Lloegr, megis HS2, HS3 a Crossrail, ac fe wnawn yn siwr y bydd cludiant cyhoeddus ym mhob rhan o Gymru yn cael ei wella.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mae Plaid Cymru yn gyson wedi dadlau dros gael y dêl gorau i Gymru. Os caiff HS2, rheilffordd rhwng dinasoedd yn Lloegr, ei adeiladu fe ddylai Cymru gael cyfran teg o'r ariannu fel ein bod yn medru gwella ein trafndiaeth gyhoeddus ni ein hunain.
- Yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un, leuan Wyn Jones Plaid Cymru oedd Gweinidog Trafnidiaeth ac fe ddatblygodd Gynllun Trafnidiaeth i Gymru a wellodd gysylltiadau rhwng gogledd a de Cymru.
- Rydym wastad wedi cefnogi trydaneiddio llinellau rheilffordd yng Nghymru, er i Lywodraeth San Steffan yn llusgo'u traed. Fe wnaeth Gwynfor Evans AS ddadlau yn erbyn Llywodraeth San Steffan am wneud hyn yn yr 1960au.
- Plaid Cymru a ddadleuodd yn gyntaf dros gymryd cyfrifoldeb dros Faes Awyr Caerdydd, gan gydnabod pwysigrwydd strategol y maes awyr i fusnes a diwydiant Cymru.



Rheilffyrdd

Yr ydym yn cefnogi perchenogaeth gyhoeddus rheilffyrdd yng Nghymru lle mae'r holl elw yn cael ei fuddsoddi i well gwasanaethau, a throsglwyddo cyllid llawn y seilwaith rheilffyrdd, gan weithio gyda Network Rail i gyflwyno hyn.

Yr ydym yn cefnogi trydaneiddio rheilffyrdd yng Nghymru, gyda'r nod o drydaneiddio pob prif lein erbyn 2034. Byddwn yn sicrhau trydaneiddio Prif Lein Gogledd Cymru yn y Cyfnod Rheoli nesaf. Tra bod trydaneiddio yn cael ei gyflwyno, gwneud y defnydd gorau o stoc trwy gynyddu nifer y gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae disel yn gweithredu fel bod mwy o wasanaethau yn y gorllewin, y canolbarth a'r gogledd.

Yr ydym yn cefnogi Metro De Cymru o gwmpas Rhanbarth Prifddinas Caerdydd, gan gysylltu cymunedau'r cymoedd a'r arfordir a'u datblygu yn economaidd.

I helpu i gysylltu ein cymunedau, hybu twristiaeth ac ychwanegu mas critigol i rwydwaith rheilffordd cyfan Cymru, byddwn yn cyllido astudiaeth dichonoldeb i ail-agor hen reilffyrdd, yn enwedig rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth ac fe fyddwn yn cefnogi cynnal Lein y Cambrian.

Dylai'r fasnachfaint nesaf yng Nghymru gynnwys cyflwyno cerdyn cludiant clyfar Cymreig sy'n gydnaws a ffurfiau eraill o deithio.

Ffyrdd

Yr ydym yn cefnogi gwelliannau'r 'Llwybr Glas' i'r M4, sydd yn llai costus a gall gael ei gwblhau yn

gynt na'r 'Llwybr Du' a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r 'Llwybr Du' yn atal prosiectau trafndiaeth eraill rhag digwydd ledled Cymru.

Byddwn yn dwyn Pontydd Hafren i ddwylo cyhoeddus Cymreig, gan dorri'r tollau ac ail-fuddsoddi unrhyw elw i seilwaith trafndiaeth Cymru.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau i'r A55, gan gynnwys gwneud trydydd Pont Menai ac fe fyddwn yn gwella ffyrdd rhwng y de a'r gogledd i wella mynediad at bob rhan o Gymru.

Byddwn yn creu rheoleiddiwr treth tanwydd i atal codiadau sydyn mewn prisiau tanwydd. Byddwn hefyd yn sicrhau cytundeb Ewropeaidd am ostyngiadau treth tanwydd mewn ardaloedd gwledig, gan gydnabod costau ychwanegol byw mewn rhannau gwledig Cymru, fel sydd eisoes wedi ei gyflwyno yn Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban.

Byddwn yn cyflwyno pwyntiau gwefru trydan ychwanegol yng Nghymru i annog defnyddio ceir trydan.

Cysylltu ein cymunedau

Byddwn yn cadw teithio am ddim ar fysus.

Byddwn yn amddiffyn gwasanaethau bysus ym mhob rhan o Gymru a sicrhau gwasanaethau yn gynnar yn y bore ac yn hwyr gyda'r nos i weithwyr.

Byddwn yn ehangu Traws Cymru yn gwmni bysus unswydd cenedlaethol Cymreig, gan gysylltu ein canolfannau poblogaeth gyda gwasanaethau rheolaidd, yn enwedig lle nad yw cysylltiadau trên yn ddewis.

Byddwn yn ymestyn y cynllun Bwcabus presennol, sydd yn barod yn rhedeg yn Ne Ceredigion ac yng Ngogledd Sir Gaerfyrddin, ar draws ardaloedd gwledig eraill i sicrhau cysylltedd ar draws Cymru lle nad yw gwasanaethau bws yn ddigonol.

Ein Meysydd Awyr a'n Porthladdoedd

Yr ydym yn cefnogi trosglwyddo pwerau dros dreth teithwyr awyr, ar deithiau byr a hir, i Lywodraeth Cymru a byddwn yn sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn llwyddiant, gan gefnogi cyfleusterau a hyfywedd y maes awyr, a chreu gwell strategaeth ddatblygu nwyddau a theithwyr.

Ni fyddwn yn cefnogi creu maes awyr newydd mawr i'r DG i'r dwyrain o Lundain.

Byddwn yn datblygu strategaeth porthladdoedd a nwyddau i Gymru, gan ddefnyddio arian Ewropeaidd i wella seilwaith.

Trafnidiaeth yn Gyffredinol

Byddwn yn sicrhau cyllid ar gyfer llwybrau beicio trefol a rhwng cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd teithio i waith.

Byddwn yn symud y Comisiynydd Trafnidiaeth Cymreig i Gymru.

Gweithio dros Gymru Well



“Gall democratiaeth Gymreig fod o fudd yn unig os bydd pobl o bob oed yn ymwneud a’r broses wleidyddol.”

Simon Thomas AC



Mae Plaid Cymru eisiau Cymru lle gall pawb fod yn rhan. Mae hynny'n golygu rhoi yn lle system fethedig San Steffan rywbeth y gallwn ni oll yng Nghymru fod yn falch ohoni, ac sy'n caniatáu i ni chwarae ein rhan mewn creu cenedl well.



Gwasanaethu'r Bobl

Bydd Plaid Cymru yn sicrhau fod llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ddemocrataidd atebol i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cymunedau maent yn wasanaethu.

Agwedd o lawr gwlad fydd gennym ni, gyda lefel gymunedol gryfach o lywodraeth leol sy'n canolbwyntio ar gyflwyno gwasanaethau, haen ranbarthol fwy strategol o lywodraeth leol er mwyn sicrhau economïau graddfa ac yna Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn golygu fod modd cymryd pob penderfyniad ar y lefel sydd agosaf at y bobl.

Rydym eisiau cryfhau'r broses ddemocrataidd trwy gynyddu nifer yr Aelodau Cynulliad a lleihau nifer yr Aelodau Seneddol.

Rydym eisiau gweld cynghorau cymuned yn gallu craffu a sicrhau gwasanaethau lleol effeithiol ym mhob cymuned Gymreig.

Rhoi llais i bobl

Byddwn yn gweithio i gynyddu nifer y bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio a byddwn yn cynyddu

adnoddau i swyddi cofrestru etholiadol. Byddwn yn annog ymwneud trwy ostwng yr oedran pleidleisio i 16 a chyflwyno gwersi gorfodol mewn dinasyddiaeth mewn ysgolion a cholegau.

Yr ydym eisiau gweld defnyddio'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, lle bo hynny'n gymwys, ym mhob etholiad, gan newid i etholaethau aml-aelod, fel bod cynifer o bleidleisiau ag sydd modd yn cyfrif tuag at ethol cynrychiolydd, a defnyddio'r Bleidlais Neilliol mewn etholiadau lle bydd angen un aelod yn unig.

Mater i bobl Lloegr yw'r modd y llywodraethir Lloegr, a dylent gael cyfle i benderfynu ar y dull gorau o'u llywodraethu eu hunain. Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi Pleidleisiau Seisnig i Ddeddfau Seisnig. Fodd bynnag, rhaid i ASau Cymreig allu pleidleisio ar unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru neu gyllidebau Llywodraeth Cymru.

Atebolrwydd a Thryloywder

Rhaid i gynrychiolwyr etholedig fod yn atebol i'r bobl. Yr ydym yn cefnogi hawl i alw Aelodau Seneddol, a chynrychiolwyr etholedig eraill, yn ôl os ydynt wedi

torri'r gyfraith neu fel arall wedi dwyn anfrï ar eu swyddogaeth.

Yr ydym eisiau gweld Tŷ'r Arglwyddi wedi ei ethol, a hynny trwy Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, tra bydd penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru yn dal i gael eu gwneud yno. Fe ddylid cael etholaeth Gymreig ar gyfer etholiadau, gyda phwysiad i sicrhau y clywir llais Cymru ar bob mater, a gostyngiad yn nifer aelodau'r ail siambr. Nid ydym yn cymeradwyo'r drefn bresennol o benodi trwy nawdd i'r ail siambr.

Byddwn yn rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg o fewn Senedd y DG fel bod yr Uwch-Bwyllgor Cymreig a'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig yn gallu cael ei annerch yn nwy iaith swyddogol Cymru.

Byddwn yn cael gwared ar rhan dau'r Mesur Llobio a sicrhau bod y system lobio yn wirioneddol dryloyw, a bod mynediad yn briodol i bawb.

Byddwn yn creu Gwasanaeth Sifil Cymreig, gyda system o hyfforddi i'r Gwasanaeth Sifil Cymreig, ar sail yr arferion rhyngwladol gorau.

Gweithio dros Gymru Fwy Gwyrdd Ynni ac Adnoddau Naturiol



“Mae Plaid Cymru yn wastad wedi dadlau y dylid gwneud iawn i Gymru am ecsploetio ac allforio ei hadnoddau naturiol. O’n cwmpas ym mhob man, fe welwn adnoddau naturiol yn cael eu rheibio heb les economaidd i’n pobl. Gallai datganoli rheolaeth dros brif brosiectau ynni ddefnyddio ein hadnoddau naturiol i gynhyrchu swyddi a thwf.”

Hywel Williams Ymgeisydd Plaid Cymru Arfon

Credwn fod ein hynni a’n hadnoddau naturiol yn perthyn i bobl Cymru. Byddwn yn defnyddio’r adnoddau naturiol hynny er lles cynaliadwy gorau ein pobl a’n cymunedau, gan ddangos pwysigrwydd natur a’r amgylchedd i Gymru.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mae Plaid Cymru wedi galw am drosglwyddo pwerau ynni yn Neddf Lleolaeth a’r Ddeddf Twf a Seilwaith.
- Rydym wedi cyhoeddi cynlluniau am gwmni ynni nid-am-elw, Ynni Cymru, gan gynnig hwn yn San Steffan ac yn y Cynulliad Cenedlaethol.
- Rydym wedi cynnig gwelliannau i Fesur Cymru fel bod Cymru yn derbyn yn uniongyrchol ran o dderbyniadau trethi o unrhyw adnoddau naturiol sydd yn cael eu cymryd oddi yma.



Pwerau a Chyfrifoldebau

Bydd Plaid Cymru yn edrych at drosglwyddo cyfrifoldeb llawn dros adnoddau naturiol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddwn yn sicrhau fod gan Gymru yn wastad y cyflenwad ynni y mae arnom ei angen trwy wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, gan flaenoriaethu adnoddau adnewyddol fel rhan o drosi i ddyfodol ynni glanach, mwy cynaliadwy a diogel.

Byddwn yn cyflwyno cwmni ynni nid-am-elw, Ynni Cymru, fydd yn rhoi ein hynni a'n hadnoddau naturiol yn nwylo pobl Cymru. Bydd hyn yn sicrhau gwerth am arian i aelwydydd a busnesau Cymreig.

Dylem gael pwerau llawn dros ein hadnoddau naturiol. Nid ydym yn derbyn gosod terfynau artiffisial ar gyfrifoldeb Cymru dros gynhyrchu ei hynni ei hun, boed hynny yn 50MW fel ar hyn o bryd neu'r rhai a argymhellwyd gan Gomisiwn Silk.

Byddwn yn cyflwyno Deddf Newid Hinsawdd i Gymru, gan fabwysiadu targedau heriol ond cyraeddadwy i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr am 2030 a 2050

Ynni adnewyddol

Credwn y dylai pobl Cymru allu elwa'n well o'r ynni a gynhyrchwn. Mae ein hadnoddau naturiol yn werthfawr iawn, ac os medrwn harneisio'r ffynonellau adnewyddol hyn yn iawn, gallem ddod yn hunan-gynahliol mewn trydan adnewyddol fyddai'n help i

gyflwyno enillion amgylcheddol ac economaidd i bobl Cymru.

Bydd ein polisi ynni yn canolbwyntio ar gynyddu cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddol, gyda phwyslais arbennig ar ffynonellau'r llanw a hydro, fel morlyn y llanw a gynllunnir ar gyfer Bae Abertawe, a lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil.

O gydnabod fod cyswllt rhwng cynhyrchu ynni a defnyddio ynni, bydd Plaid Cymru hefyd yn cefnogi gwaith i leihau'r defnydd o ynni, gan gynnwys cymorth gydag addasiadau i dai i'w gwneud yn fwy ynni-ffeithiol, yn enwedig gan gefnogi busnesau lleol i wneud y gwaith hwn, a helpu diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni i leihau eu defnydd.

Byddwn yn annog trosglwyddo buddsoddiad o gloddio am danwydd ffosil i fanteisio ar ffynonellau ynni adnewyddol.

Byddwn yn gosod targedau uchelgeisiol am ailgylchu, ar sail yr hierarchiaeth wastraff fel mai'r rhagdyb yw aildefnyddio yn hytrach nac ailgylchu neu anfon i dirlenwi.

Byddwn yn gweithio gydag archfarchnadoedd ac eraill i leihau gwastraff anfiobydradwy o becynnu.

Seilwaith

Dylai cymunedau elwa mwy o gynhyrchu ynni. Rydym eisiau gweld pobl leol yn berchen ar brosiectau ynni ac yn buddsoddi ynddynt. Byddwn yn cynyddu cyngor a chefnogaeth sydd ar gael i gymunedau lleol ar sut y gallen

nhw fanteisio orau o brosiectau cynhyrchu ynni.

Byddwn yn ystyried sefydlu gridiau pŵer lleol a grid ynni cenedlaethol ledled Cymru i sicrhau trawsgludo ynni yng Nghymru, i gysylltu pwyntiau mynediad rhwng de a gogledd dan y môr.

Dylai mynediad at y Grid Cenedlaethol gael ei wneud yn haws i ddefnyddwyr adnewyddol a chaniatáu cynhyrchwyr ynni newydd i ddod arlein, fel yn yr Almaen.

Yr ydym yn gwrthwynebu defnyddio peilonau i gludo ynni trwy Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac yn cefnogi defnyddio technoleg ceblau tanddaear a than y môr i gludo trydan, lle bo modd.

Yr ydym yn cefnogi moratoriwm ar ffracio a ffurfiau eraill o nwy anghonfenisynol. Ni ddylid defnyddio dŵr Cymru i ffracio mewn mannau eraill, ac ni ddylai ffracio ddigwydd heb i ganiatad llawn gael ei roi gan dirfeddiannwyr a thrigolion, nac heb Asesiad Effaith Amgylcheddol llawn.

Bydd Plaid Cymru hefyd yn parhau i wrthwynebu cloddio glo brig, yn enwedig pan fo hynny yn agos at dai neu adeiladau sy'n cael eu defnyddio yn rheolaidd, fel ysbytai ac ysgolion, a nwyeddio glo dan ddaear.

Yr ydym yn parhau i wrthwynebu codi atomfeydd niwclear mewn mannau newydd, a byddwn yn gweithio i sicrhau y bydd pobl a busnesau lleol yn elwa o weithfeydd felly sydd yn bod eisoes.

Gweithio dros Gymru Fwy Gwyrdd Bwyd ac Amaeth



“Fel pob diwydiant, mae amaethyddiaeth yng Nghymru yn teimlo effaith y toriadau a orfodwyd gan Lywodraeth San Steffan. Rydym eisiau helpu'r sector i ddod yn ôl ar ben y ffordd a helpu pobl i gymryd y dewis diogelach ac iachach o brynu cynnyrch mewn siopau lleol fydd hefyd yn rhoi hwb y mae ei angen yn fawr i funsesau bach.”

Hywel Williams Ymgeisydd Plaid Cymru Arfon

Mae bwyd ac amaeth yn allweddol bwysig i bob gweithgaredd arall yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau y bydd gan Gymru yn wastad ddigon o fwyd a byddwn yn cefnogi'r sector i sefyll ar ei draed ei hun.

Cefnogaeth i'n ffermwyr

Yr ydym yn cefnogi parhad y polisi Amaethyddol Cyffredin sydd yn cadw dros 80% o ffermydd Cymru mewn busnes gyda thaliadau uniongyrchol, ond yr ydym yn pryderu am y newid sylweddol o Biler Un i Biler Dau a gymerodd dros chwarter biliwn o bunnoedd yn syth allan o economi wledig Cymru, a chredwn y dylai buddsoddi cyfalaf mewn ffermydd yn fwy o flaenoriaeth i'r Cynllun Datblygu Gwledig, ac y dylid neilltuo adnoddau yn unol â hynny.

Yr ydym eisiau cynyddu hybu cynnyrch ffermydd Cymru trwy agor marchnadoedd rhyngwladol newydd i'n diodydd a'n bwydydd

safonol. Byddwn yn parhau i hybu bwyd a diod Cymru yn genedlaethol a rhyngwladol trwy'r Dynodiad Tarddiad Ewropeaidd Gwarchoddedig (PDO) a statws Arwydd Daearyddol Gwarchoddedig (PGI). Byddwn yn caffael mwy o gynnyrch Cymreig yng Nghymru fel rhan o'n cynllun contractau Cymreig i gwmnïau Cymreig.

Yr ydym eisiau gweld diwygio'r rheolau Lefi Cig Coch. Mae'r rheoliadau presennol yn golygu fod Hybu Cig Cymru ar eu colled o £1m y flwyddyn sydd yn hanfodol i'r diwydiant amaethyddol Cymreig.

Byddwn yn cryfhau rôl y Dyfarnwr Bwydydd er mwyn amddiffyn

ffermwyr a'r rhai sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau bargaen deg.

Bydd Plaid Cymru yn sicrhau bod PAC yn gweithio i ffermwyr Cymru a bod pob ffarmwr yn derbyn y Taliad Sylfaenol llawnaf erbyn Rhagfyr y 1af 2015. Byddwn hefyd yn sicrhau bod cyllido'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, yn arbennig wrth dargedu buddsoddiad mewn ffermydd i wella sgiliau a chryfhau seilwaith.

Byddwn yn cyflymu gweithredu i dorri biwrocratiaeth yn y diwydiant amaethyddol, gan gynnwys mynd ati i ddileu'r 'rheol aros am chwe diwrnod' sydd wedi cyflawni ei bwrpas.



Cefnogi bwyd a gynhyrchir yn lleol

Yr ydym eisiau gweld bwyd yn cael ei gynhyrchu, ei brosesu a'i werthu yn lleol ac yr ydym yn cefnogi lleoleiddio'r gadwyn fwyd i leihau 'milltiroedd bwyd', i leihau llygredd a chefnogi ffermydd a chyfleusterau prosesu lleol a marchnadoedd ffermwyr.

Byddwn yn cyflwyno Mesur Gwastraff Bwyd, sy'n mynnu bod siopau bwyd mawr a chynhyrchwyr bwyd yn cymryd camau i leihau gwastraff bwyd, gan gynnwys rhoi bwyd dros ben i elusennau i'w ddsbarthu.

Yr ydym eisiau gweld awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd gorau o dir ac yn hybu rhandiroedd a thyfu bwyd iachus, wedi ei gynhyrchu gartref. Byddwn yn newid Deddf Rhandiroedd 1908 i roi'r rhyddineb i awdurdodau lleol wneud hyn.

Byddwn yn parhau i wrthweithio 'twyll bwyd' trwy weithio'n agos â llywodraethau ar bob lefel er mwyn sicrhau na thorrir safonau

ansawdd bwyd, gan gynnwys gwrthwynebu trothwyau ansawdd fel rhan o drafodaethau masnach rhwng yr UE ac UDA.

Byddwn yn cefnogi ac yn diogelu pysgota môr a chynhyrchu bwyd môr cynaliadwy.

Yr ydym yn cefnogi'r Strategaeth Twf Glas i gryfhau economi'r môr, gan gysylltu ag economi'r tir i roi gwerth ychwanegol trwy farchnadoedd lleol a chynhyrchion newydd ac arloesol.

Yr ydym yn cefnogi cyflwyno Comisiynydd Lles Anifeiliaid ar lefel Ewropeaidd a mabwysiadu ar bob lefel o lywodraeth gyfraith Lles Anifeiliaid newydd a chynhwysfawr i roi terfyn ar greulondeb i anifeiliaid.

Amddiffyn ein amgylchedd naturiol

Mae Plaid Cymru yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd naturiol Cymru. Rydym yn deall rôl allweddol ecosystemau iach sy'n gweithredu, ac rydym wedi

ymrwymo i gynnal ac adfer ein bioamrywiaeth.

Yr ydym yn erbyn twf Organebau a Addaswyd yn Ennynol (GMOs) yng Nghymru ac yn cefnogi Ynysoedd Prydain ac Ewrop sy'n rhydd o GMO ar egwyddor rhagofalus. Mae gennym bryderon am effaith trawsbeillio os bydd Llywodraeth y DG yn bwrw ymlaen gyda chynlluniau i gyflwyno cynydau GMO yn Lloegr.

Byddwn yn parhau i weithio ar draws Ynysoedd Prydain ac Ewrop i atal lledaeniad rhywogaethau estron ymosodol, yn fflora a ffawna, gan gynnwys creu rhybuddion cynnar am fygythiadau.



Liz Saville Roberts, Ymgeisydd Plaid Cymru yn Nwyfor Meirionnydd

Gweithio dros ein holl bobl

Materion Gwledig

“Wrth i'r argyfwng costau byw frathu, mae'n fwy amlwg nac erioed fod cymunedau gwledig ar hyd a lled Cymru dan bwysau. Mae Plaid Cymru yn benderfynol o weithredu i helpu cymunedau sy'n wynebu rhai o'r prisiau ynni a tanwydd uchaf. Mae ein cynlluniau yn fwy na mater o gyflwyno ar gyfer un ardal, ond cyflwyno i Gymru gyfan.”

Hywel Williams Ymgeisydd Plaid Cymru Arfon



Mae Plaid Cymru yn cydnabod pwysigrwydd bywyd gwledig ym mhob rhan o Gymru, a'r heriau gwahanol a wynebir gan ein cymunedau gwledig. Rydym eisiau sicrhau y gall teuluoedd fwynhau manteision byw yn y wlad a lleihau unrhyw anawsterau.



John Rowlands

Ymgeisydd Plaid Cymru yn Ynys Môn



Byddwn yn cynyddu nifer yr ambiwlansys sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig, yn cefnogi ambiwlansys awyr ac yn gofalu bod parafeddygon ar gael.

Byddwn yn buddsoddi yn y gwasanaeth nyrsio cymunedol gan ddarparu nyrsus ardal mewn ardaloedd gwledig ar hyd a lled Cymru.

Byddwn yn gostwng trethi busnes, gan wneud canol trefi yn fwy fforddiadwy i siopau bach a'u helpu i ffynnu.

Byddwn yn gwella cysylltiad band llydan, gan gael pawb arlein fel y gall pobl gynnal busnesau o gartref, gyda tharged o gyflymder o 30Mbps o leiaf, a gofalu bod cwmnïau ffonau symudol yn rhoi gwell gwasanaeth i bob rhan o Gymru.

Byddwn yn rhoi pwerau cryfach i gymunedau i warchod eu hasedau lleol, gan gynnwys tir ac adeiladu.

Byddai hyn yn helpu cymunedau i gadw eu parciau, tafarndai, siopau a swyddfeydd post lleol.

Byddwn yn gwthio am ganiatad yr Undeb Ewropeaidd i ostyngiad mewn prisiau petrol a diesel yng Nghymru wledig.

Byddwn yn sicrhau gwell cludiant cyhoeddus trwy ymestyn cynllun Bwcabws lle nad oes digon o wasanaethau bws confensiynol.

Byddwn yn caniatáu datblygu ar ffermydd fel y gall teuluoedd barhau i fyw a gweithio ar yr un fferm pan fydd y plant yn prifio ac yn magu eu teuluoedd eu hunain.

Byddwn yn gofalu yr erys ffermio yn hyfyw yng Nghymru trwy gefnogi'r PAC a helpu pobl ifanc i fynd i mewn i'r diwydiant.

Byddwn yn gwneud yn siwr fod llythyrau a pharseli yn costio'r un faint lle bynnag maent yn cael eu cludo trwy gadw'r Rheidrydd Gwasanaeth Cyffredinol i wasanaethau post.

Byddwn yn newid y fformiwla gyllido wledig, megis un llywodraeth leol, i adlewyrchu cost ychwanegol darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

Byddwn yn sicrhau bod lefelau staffio criwiau diffoddwyr tân llawn amser ac wrth gefn yn ddigonol i ymdrin yn llawn â phob rhan o Gymru bob amser.





Gweithio dros ein holl bobl

Cymunedau Cynaliadwy

“Gweledigaeth Plaid Cymru yw un o gymunedau ffyniannus ar hyd a lled Cymru. Mae hynny'n golygu cymunedau sy'n fywiog, wedi eu cefnogi gan economïau lleol cryf, gwasanaethau o safon uchel a pherthynas dda. Dylai cymunedau fod yn gynaliadwy, yn buddsoddi yn awr mewn ansawdd bywyd da at y dyfodol.”

Hywel Gruffydd AC, Llefarydd dros Gymunedau Cynaliadwy

Cred Plaid Cymru fod gan ein cymunedau yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Byddwn yn rhoi iddynt yr arfogaeth i wneud yr hyn sydd orau ym mhob rhan o Gymru, er mwyn sicrhau gwlad gynaliadwy a theg – cymuned o gymunedau.





Dechrau gyda dinasyddion a chymunedau ac adeiladu tuag allan yw'r ffordd orau o gael cymunedau cynaliadwy. Byddwn yn datblygu gwasanaethau hyblyg sy'n canoli ar yr unigolyn, fel y gallant ymateb yn well i her y dydd heddiw.

Byddwn yn sefydlu Cronfa Atal i annog gweithio ataliol, integredig ar lefel leol, a byddwn yn gweithio er mwyn sicrhau bod mudiadau yn gweithio ynghyd mewn dull tryloyw gydag atebolrwydd democrataidd clir.

Byddwn yn ail-ffurfio uned gyflawni fethedig Llywodraeth Cymru yn Uned Strategaeth ac

Integreiddio i fwrw ymlaen gyda materion traws-lywodraeth tymor-hir.

Byddwn yn defnyddio strwythurau presennol y trydydd sector i sicrhau rhaglen Cymunedau Cysylltiedig – rhaglen ddatblygu cymunedol gyda'r nod o hybu a chefnogi gweithredu ar lefel cymuned a chymdogaeth ledled Cymru.

Byddwn yn sefydlu Canolfan Fenter Gymdeithasol i ymchwilio i faterion cymdeithasol o bwys, gan greu llinellau cyfathrebu a mynediad rhwng y sawl sydd â diddordeb mewn datblygu gwell cymdeithas, e.e.gwell cyfathrebu

rhwng gweithwyr a chleifion y GIG, neu mewn lleihau allyriadau carbon.

Byddwn yn datblygu dulliau cydweithredol a chyd-gynhyrchu i gyflwyno gwell gwasanaethau lleol.

Byddwn yn diwygio cyllid a buddsoddi cyhoeddus i'w gwneud yn haws buddsoddi mewn creu mwy o gymunedau cynaliadwy.

Byddwn yn creu seilwaith mwy cynaliadwy gan ganolbwyntio yn benodol ar well tai, cludiant cyhoeddus, cyfleusterau hamdden ac addysg, datblygu mannau gwyrdd a llwybrau beicio mewn trefi.



Gweithio dros ein holl bobl

Yr iaith Gymraeg

“Os ydym o ddifrif am wrthdroi dirywiad yr iaith Gymraeg, mae angen camau gwahanol a mwy radical. Bu Plaid Cymru'n ymgyrchu'n galed i wella cyfleoedd gwaith i siaradwyr Cymraeg, er enghraifft, trwy sicrhau bod nifer o brentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein bargaen ar y gyllideb, ond mae angen gwneud llawer mwy os ydym am gefnogi ffyniant yr iaith.”

Simon Thomas AC Llefarydd dros Addysg

Cred Plaid Cymru fod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Yr ydym eisiau gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio ar hyd a lled ein cenedl, ac fe gymerwn gamau fel bod gan bawb yr hawl a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Mewn llywodraeth fe wnaethom gyflwyno Mesur yr Iaith Gymraeg 2011 sydd yn gwneud y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol Cymru, gan greu Comisiynydd yr Iaith Gymraeg a'r safonau iaith Gymraeg. Diben y safonau iaith yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod gan bobl yr hawl i ddefnyddio'r iaith. Yn anffodus, oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn llusgo'i thraed, ni chyflwynwyd y safonau eto. Ni fyddwn yn cefnogi cyflwyno unrhyw safonau sy'n wannach na'r hyn sydd yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993.



Vaughan Williams
Ymgeisydd Plaid Cymru yn Llanelli



Hawliau

Yr ydym eisiau gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu, gydag agwedd seiliedig ar hawliau fydd yn caniatáu i siaradwyr dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg ym mhob rhan o Gymru a chefnogi cymunedau Cymraeg lle bynnag y maent.

Byddwn yn gofalu bod strategaethau ar gael i hybu addysg Gymraeg a sicrhau fod pobl ddwyieithog yn cael eu cyflogi er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau hyn ledled Cymru.

Byddwn hefyd yn cyflwyno rheoliadau llymach i'r sawl sy'n methu cwrdd â'u hymrwymadau statudol i'r Gymraeg.

Byddwn yn cefnogi awdurdodau lleol i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddefnyddio'r arferion da a ddatblygwyd gan Gyngor Gwynedd.

Byddwn yn cryfhau safonau'r iaith Gymraeg fel bod gan bob siaradwr Cymraeg yng Nghymru yr hawl i ddisgwyl gwasanaeth yn eu dewis iaith gan gyrrff y sector cyhoeddus a phrif gwmnïau'r sector preifat.

Byddwn yn caniatáu rheithgorau dwyieithog yng Nghymru.

Byddwn yn sicrhau bod tystysgrifau dwyieithog ar gael ar gyfer genedigaethau, priodasau a marwolaethau sy'n digwydd yn Lloegr i bobl sy'n byw fel arfer yng Nghymru.

Byddwn yn sicrhau bod darparwyr gwasanaeth sydd y tu allan i Gymru yn cwrdd â'r un safonau darpariaeth iaith Gymraeg â'r rhai sydd yng Nghymru.

Byddwn yn gwthio i roi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yn Senedd y DG fel y gellir annerch cyfarfodydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a'r Uwch-Bwyllgor Cymreig yn y naill neu'r llall o ddwy iaith swyddogol Cymru.

Byddwn yn pwysu ar Lywodraeth y DG i wneud y Gymraeg yn un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a rhoi'r hawl i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu hiaith ar bob lefel, ac i'w statws gael ei chydabod yn rhyngwladol.



Iaith Gymunedol

Byddwn yn rhoi cefnogaeth i'r iaith Gymraeg ffynnu fel iaith gymunedol, gan gynnwys cefnogaeth i'r Gymraeg mewn busnes, mewn addysg ac yn y cyfryngau.

Byddwn yn sicrhau y bydd cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn rhan hanfodol o benderfyniadau cynllunio yng Nghymru.

Byddwn yn defnyddio arferion gorau rhyngwladol i osod y gyllideb ar gyfer y Gymraeg yn 2016 ar lefel lle gall fod yn effeithiol i hybu'r Gymraeg fel iaith gymunedol, a gwarchod y gyllideb tan yr etholiadau nesaf.

Byddwn yn sicrhau bod ymdriniaeth y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei wella,

fel, ymhen amser, y bydd gan bob disgybl gyfle i ddilyn addysg Gymraeg o 7 oed ymlaen.

Byddwn yn hybu'r Siarter Iaith sydd yn helpu ysgolion i annog plant i fod yn falch o'u sgiliau iaith Gymraeg ac i'w defnyddio y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Trwy ddefnyddio model y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn Addysg Uwch, bydd Plaid Cymru yn cynyddu'r ddarpariaeth cyrsiau a thiwtoriaid iaith mewn addysg bellach ar hyd a lled Cymru, gan sicrhau y bydd pynciau galwedigaethol ar gael i siaradwyr Cymraeg yn y Llwybrau Dysgu 14-19.

Yr ydym yn cefnogi sefydlu gwasanaeth aml-gyfrwng Cymraeg newydd i weithredu arlein, ar y radio a llwyfannau eraill, er mwyn adlewyrchu anghenion

cynulleidfaoedd Cymraeg a gwella'r ymdriniaeth o faterion cyfoes yng Nghymru.

Byddwn yn deddfwriaethu i amddiffyn enwau Cymraeg traddodiadol rhag cael eu newid ac felly atal newid tirwedd ieithyddol, yn cynnwys mewn canol trefi Cymraeg traddodiadol.





Yr iaith Gymraeg a'r economi

Byddwn yn cefnogi strategaeth sydd yn defnyddio Caerfyrddin, Aberystwyth ac ardal Menai fel canolfannau busnesau Cymreig, gan sicrhau cyllid i gynorthwyo busnesau ar draws y gorllewin a'r gogledd-orllewin a'u helpu i recriwtio a defnyddio'r Gymraeg yn eu busnes bob dydd.

Byddwn yn datblygu strategaeth unswydd i gefnogi siaradwyr Cymraeg i ddod yn entrepreneuriaid a datblygu eu busnesau eu hunain.

Byddwn yn adeiladu ar fargen Plaid Cymru ar y Gyllideb yn 2012 i gyflwyno mwy o brentisiaethau ar bob lefel trwy gyfrwng y Gymraeg, gan helpu cwmnïau sydd yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.



Gweithio dros ein holl bobl

Gweithio dros Gymru Decach

Mae Plaid Cymru eisiau Cymru lle mae gan bawb y cyfle i gyrraedd eu potensial a gwneud dewisiadau yn eu bywydau. I wneud hyn, ein nod fydd cau'r bwloch cydraddoldeb, cyfle sydd yn bod ar hyn o bryd yng Nghymru.

Mae Plaid Cymru wedi ymrwmo i hawliau dynol. Rydym yn blaid sydd yn dathlu amrywiaeth ac sydd eisiau creu cymdeithas gydradd a theg lle mae gwahaniaethau yn cael eu parchu. Credwn fod gan bawb, beth bynnag eu nodweddion neu o ba bynnag gefndir maent yn dod, le yn nyfodol Cymru.





Anabledd

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ofalu fod gan bob ysgol fynediad priodol i ddisgyblion anabl.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ofalu y gall deiliaid Bathodynau Glas gael parcio am ddim.

Byddwn yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys gallu cael lleoliadau gofal priodol.

Byddwn yn sicrhau fod pob ysgol yn cynnwys dysgu goddefgarwch a gwrth-wahaniaethu.

Byddwn yn rhoi mwy o gyfle i bobl anabl gael swyddi ledled Cymru trwy ein cynigion am wasanaeth Cymreig newydd i chwilio am swyddi.

Byddwn yn helpu teuluoedd sydd â phlant anabl i allu fforddio gofal

plant a gwella'r ddarpariaeth gofal plant i rai ag anableddau.

Byddwn yn annog cyflogwyr i roi digon o gefnogaeth i staff sydd ag anawsterau iechyd meddwl.

Er mwyn helpu carcharorion gyda phroblemau iechyd meddwl a chyffuriau neu alcohol, byddwn yn gwella cydweithrediad rhwng gwasanaethau carchar ac iechyd a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Pobl hŷn

Dylai pobl allu dod o hyd i waith wedi cyrraedd oedran pensiwn, a byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau hyn.

Byddwn yn gweithio gyda mudiadau'r trydydd sector a'r Heddlu i atal camfanteisio ar bobl hyn trwy wahanol fathau o dwyll.

Rhaid trin pobl oedrannus a bregus gyda dealltwriaeth a

pharch. Byddwn yn gwella dulliau ac amlder arolygiadau o'r gofal a ddarperir mewn ysbytai, cartrefi gofal a chartrefi nyrsio er mwyn sicrhau hyn.

Byddwn yn gweithio i drin problem gynyddol unigrwydd ymysg pobl hŷn trwy sicrhau fod gweithwyr cymunedol yn gallu treulio mwy o amser gyda phobl hŷn nac sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Byddwn yn rhoi cyfle i bobl hŷn aros yn gymdeithasol, corfforol a meddyliol fywiog tra gallant. Byddwn yn gwarchod y gwasanaeth teithio am ddim ar fysus sydd yn helpu pobl hŷn i deithio'n ddiogel yn eu cymunedau.



Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol

Byddwn yn sicrhau bod pob ysgol ac awdurdod lleol yn cofnodi digwyddiadau o fwlio homoffobig ac yn ceisio ei ddileu trwy roi cefnogaeth a hyfforddiant i athrawon, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan Blaid Cymru. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws iddynt wybod pwy yw'r dioddefwyr a gweithredu yn briodol mewn achosion o fwlio LGBT mewn ysgolion.

Byddwn yn rhoi terfyn ar y gwaharddiad deuddeng mis ar roi gwaed gan ddynion hoyw a deurywiol.

Byddwn yn rhoi cefnogaeth lle bo modd i drin unigrwydd a darparu manau diogel i unigolion a grwpiau.

Byddwn yn mynnu dedfrydau llymach am droseddau casineb yn erbyn pobl hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, ac yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau'r heddlu i sicrhau bod cofnodi manwl yn digwydd.

Byddwn yn gweithio tuag at weithredu fframwaith am Wasanaeth Gofal sylfaenol i bobl drawsrywiol a rhyngrywiol a datblygu Clinig Hunaniaeth Rhywedd yng Nghymru.

Taclo Rhagfarn a Chamdriniaeth

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chydraddoldeb Hil i godi ymwybyddiaeth ac atal camwahaniaethu o ran cyrchu gwaith.

Byddwn yn cynyddu'r cyfle am gyfiawnder adferol, lle'r ystyrir bod dod â'r dioddefwr wyneb yn wyneb â'r troseddwr yn ffordd effeithiol o atal mwy o droseddau.

Anghydraddoldebau rhyw

Byddwn yn sicrhau bod dynion a menywod yn cael yr un tâl am waith tebyg.

Yr ydym yn cydnabod effaith manau gwaith ar wahan lle mae menywod a dynion yn dilyn llwybrau gyrfu gwahanol ac effaith

hyn ar lefelau cyflog. Byddwn yn anelu at godi statws gwaith sy'n cael ei wneud yn aml gan fenywod a hybu gallu menywod i fynd at yrfaeodd mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a gyrfaoedd eraill lle mae menywod yn cael eu tangynrychioli, darparu mentoriaid a rhwydweithiau cefnogi.

Byddwn yn anelu at roi cefnogaeth ychwanegol i fenywod ifanc fynd i'r farchnad swyddi ar lefel briodol trwy ein cynigion Canolfan Byd Gwaith Cymreig, yn enwedig trwy helpu mamau ifanc neu sengl fynd at waith a chyrraedd eu potensial.

Byddwn yn darparu blwyddyn ychwanegol o addysg fydd yn caniatáu i rieni ddewis gweithio a darparu gofal plant fforddiadwy fel y gall menywod weithio.

Byddwn yn anelu at ddarparu gofal plant hyblyg a fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd difrientiedig, trwy gyfrwng y Gymraeg ac i blant ag anableddau.

Byddwn yn gweithio tuag at wella cyfleusterau a chymwysterau ym maes gofal plant a gofal am bobl hŷn, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a chydweithredol,



gan gydnabod mai ar fenywod y mae dyletswyddau gofal yn disgyn yn bennaf.

Byddwn yn sicrhau Cyflog Byw, fydd yn help arbennig i fenywod sydd mewn gwaith sy'n talu'n isel neu mewn gwaith rhan-amser, ac yn rhoi mwy o annibyniaeth ariannol iddynt.

Gan gydnabod fod effaith llymder wedi bod yn drymach ar fenywod, bydd Plaid Cymru yn mynnu bod unrhyw doriadau pellach yn destun

asesiadau effaith cydraddoldeb i atal unrhyw grwpiau rhag dioddef anfantais anghymesur.

Byddwn yn sicrhau fod pob corff neu asiantaeth sy'n derbyn arian sylweddol gan y llywodraeth yn cynnwys o leiaf 40% o aelodaeth dynion a menywod ar eu byrddau rheoli. Dylent hefyd fod â chynllun ymwybyddiaeth y rhywiau er mwyn cael y cydbwysedd priodol rhwng y rhywiau ar bob lefel, yn enwedig mewn manau gwaith lle mae rhaniad rhwng y rhywiau.

Rydym eisiau i'n dynion a'n merched ifanc fod yr un mor llwyddiannus yn eu haddysg bellach, a byddwn felly yn gwneud yn siwr fod darparwyr gwasanaethau addysg, hyfforddi a gyrfaedd yn deall yn well effaith rhywedd ar ddysgu, a sut i ymdrin â hyn.

Bydd Plaid Cymru yn cael gwared ar TAW ar gynhyrchion misglwyf merched, gan wneud y ddatl dros hyn yn San Steffan ac yn Ewrop.

Gweithio dros ein holl bobl

Gweithio dros Gymru fwy llwyddiannus



“Fe wyddom yma yng Nghymru fod ein gwlad yn lle ardderchog i gael gwyliau. O'r arfordir rhyfeddol at bentrefi tlws a henebion, mae'n wir dweud fod yma rywbeth i bawb. Yr her yn awr yw cyfleu'r neges hwnnw ar hyd ac ar led i ymwelwyr nad yw Cymru ar eu radar fel cyrchfan wyliau. Fe allem fod yn cynhyrchu llawer iawn yn fwy o arian i'n heconomi gyda mwy o fuddsoddi. Mae Plaid Cymru eisiau manteisio ar harddwch naturiol ein cenedl a dangos gwir gefnogaeth i'n diwydiant ymwelwyr.”

Rhun ap Iwan AC

Mae Plaid Cymru eisiau i Gymru gael ei chydabod yn rhyngwladol fel cenedl llwyddiannus. Rydym eisiau brand cryf a hysbys i ddenu mwy o ymwelwyr i Gymru, gan greu mwy o swyddi ledled y wlad.

Brand Cymru a Thwristiaeth

Mae Visit Britain wedi methu â hybu Cymru yn y DG a thramor.

Byddwn yn dyblu'r gyllideb i dwristiaeth Gymreig, gydag awdurdod twristiaeth Gymreig i hybu Cymru yn benodol.

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi croesawu digwyddiadau rhyngwladol o bwys yng Nghymru, gyda chefnogaeth achos busnes cryf i ddangos manteision dwyn digwyddiadau fel Gemau'r Gymanwlad neu Expo'r Byd i Gymru.

Byddwn yn cynnal blwyddyn Dathlu Cymru i hybu twristiaeth ar hyd a lled y wlad, tebyg i'r 'Homecoming' yn yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon.

Mae gan Gymru lai o wyliau banc nac unrhyw wlad arall yn yr Undeb Ewropeaidd, felly bydd Plaid Cymru yn gwneud Gŵyl Dewi, neu'r diwrnod priodol agosaf o'r wythnos, yn ŵyl banc cyhoeddus yng Nghymru.

Byddwn yn cefnogi twristiaeth trwy dorri TAW ar dwristiaeth, a fydd yn creu 7,000 o swyddi yng Nghymru.

Byddwn yn cefnogi gwyliau bwyd ar hyd a lled Cymru, gan fuddsoddi mewn cynnyrch lleol a denu ymwelwyr.

Chwaraeon

Byddwn yn hybu chwaraeon, ymarfer a gweithgaredd i bob oedran, rhyw a gallu fel dull o gynnal iechyd a lles personol.

Yn dilyn ein perfformiad ardderchog yng Ngemau'r Gymanwlad yn 2014 yn Glasgow, mae'n hanfodol cynnal y momentwm ar lefel chwaraeon hamdden, canolradd ac elite yng Nghymru.



Byddwn yn parhau i ddatblygu rhaglen Ysbrydoli Cymru Plaid Cymru i ddwyn pob oed i mewn i chwaraeon a chadw'n ffit ac iach.

Yr ydym eisiau gweld gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd mewn amrywiaeth eang o fannau o gwmpas Cymru fel eu bod ar gael yn eang. Gallai hyn gynnwys canolfannau cymunedol a sefydliadau addysg, nid dim ond canolfannau hamdden neu feysydd chwaraeon arbenigol.

Gan ddysgu o Bartneriaethau Chwaraeon Lleol yn Iwerddon, fe fyddwn yn ceisio cyflwyno cyfranogi mewn chwaraeon yn rhanbarthol ar draws Cymru, gan gysylltu rhwng cyrff llywodraethol Cymreig, awdurdodau chwaraeon, awdurdodau lleol, ysgolion, clybiau chwaraeon a chanolfannau hamdden er mwyn sicrhau fod

gan gymunedau gyfleusterau hamdden a chwaraeon addas ar gyfer eu hanghenion.

Trwy wneud pobl ifanc a'u teuluoedd yn gyfarwydd â'r gwahanol fathau o chwaraeon a gweithgareddau, ein gobaith yw cael mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, gyda sgil-ffeithiau llesol hyn, gan gydnabod pwysigrwydd ysgolion o ran hybu hyn, yn ogystal â mudiadau gwirfoddol a chynghorau y tu allan i'r ysgol.

Er y byddwn yn hybu ffitrwydd a gweithgaredd i bob oed, fe wnawn lunio cynlluniau penodol i hybu merched ifanc yn eu harddegau i gymryd rhan mewn rhaglenni ffitrwydd.

Wrth ddatblygu ein rhaglen Ysbrydoli Cymru, rydym eisiau i

athletwyr elite chwarae rhan yn hybu chwaraeon ar draws Cymru, gan ymweld ag ysgolion, clybiau ieuencid a digwyddiadau haf i ysbrydoli eraill i gymryd rhan, gan gynnwys pobl o bob gallu ac o bob cefndir cymdeithasol, ethnig ac economaidd.

Byddwn yn ymchwilio i ddenu'r Tour de France i Gymru, i ddynion a menywod.

Yr ydym eisiau gweld tîm criced Cymreig rhyngwladol all gystadlu ar lefel yr ICC.

Byddwn yn cefnogi datblygu chwaraeon ar lawr gwlad ar lefel Cymru gyfan, i hybu cynghreiriau cenedlaethol Cymreig lle mae datblygu chwaraeon yn caniatáu, a chefnogi strwythurau sydd yn bod eisoes, fel Cynghrair Bel-droed Cymru.

Gweithio dros ein holl bobl

Y Celfyddydau, Cyfryngau a Diwylliant

Mae Plaid Cymru eisiau gweld pawb yng Nghymru yn gallu mynd at ein celfyddydau, ein cyfryngau a'n diwylliant. Rydym eisiau gweld byd celfyddydol bywiog a chyffrous, o safon uchel, yn llawn menter a gwreiddioldeb, yn helpu i greu a chynrychioli pob agwedd o fywyd Cymru.

Mae Plaid Cymru wedi gweithio dros Gymru

- Fel rhan o Lywodraeth Cymru'n Un, sicrhodd Plaid Cymru greadigaeth Theatr Genedlaethol iaith Saesneg i Gymru, sydd wedi ennill nifer o wobrwyon ers ei sefydlu.
- Rydym hefyd wedi cefnogi gwella a datblygu Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, fel ei bod yn parhau i fod yn un o atyniadau treftadaeth mwyaf blaenllaw Ewrop ac yn parhau ei rôl wrth esbonio hanes Cymru.
- Cefnogodd Plaid Cymru S4C wrth barhau ag annibyniaeth olygyddol ac ariannu dan fygythiad llywodraeth y DG.
- Fel aelod o'r Pwyllgor Dethol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, amlygodd cyn AS Plaid Cymru Adam Price hacio ffôn honedig gan News of the World.





Y Cyfryngau

Byddwn yn datganoli darlledu i Gymru ac yn gweithredu'r argymhellion ar ddarlledu a wnaed gan Blaid Cymru i Gomisiwn Silk.

Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Ymddiriedolaeth BBC i Gymru fel rhan o BBC mwy ffederal o fewn y DG. Byddai ymddiriedolwyr yn cael eu hapwyntiau gan Lywodraeth Cymru a'r broses apwyntio yn cynnwys gwrandawriadau cyhoeddus wedi eu cynnal gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Byddai cyfrifoldeb dros S4C, unig sianel iaith Gymraeg y byd, yn cael ei drosglwyddo i Gymru, fel y byddai cyllido ar gyfer y sianel sydd ar hyn o bryd yn gyfrifoldeb Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Byddwn yn sicrhau bod S4C yn derbyn ariannu digonol a bod y sianel yn parhau i gael annibyniaeth olygyddol. Eto, fe ddylai Llywodraeth Cymru apwyntio aelodau byrddau Awdurdod S4C yn dilyn gwrandawriadau cyhoeddus.

Dylai swyddfa Ofcom yng Nghymru gael mwy o bwerau, gan gynnwys yr awdurdod i wneud penderfyniadau trwyddedu. Dylai aelodau Pwyllgor Cyngori Ofcom

i Gymru gael eu hapwyntio gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn cael ei gyflawni orau drwy ffederaleiddio gwaith Ofcom mewn cyd-destun DG.

Byddwn yn rhoi i bapurau newydd lleol statws 'asedau cymunedol' fel na bod modd eu cau heb i gymunedau gael y cyfle i gadw eu papur.

Mae'n bwysig bod yna luosogrwydd barn a ffynonellau gwybodaeth, felly fe wnawn alw ar Ofcom i beidio â lleihau ymhellach ar newyddion a gynhyrchwyd yng Nghymru a chynnwys heb fod yn newyddion yn ein cyfryngau.

Y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant

Bydd Plaid Cymru yn cyflwyno hawl i bawb i gael mynediad at y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant ac mae'n rhaid i'r celfyddydau gael eu cyflwyno fel eu bod yn berthnasol ac ar gael i bawb.

Byddwn yn cynyddu mynediad at y celfyddydau i bobl ifanc, yn enwedig y rheini o gefndiroedd dan anfantais, trwy hyrwyddo prentisiaethau yn y cyfryngau a'r celfyddydau, a hyrwyddo'r

celfyddyddau i deuluoedd gymryd rhan gyda'i gilydd.

Byddwn yn sicrhau parhad mynediad am ddim i amgueddfeydd Amgueddfa Cymru.

Gan adeiladu ar lwyddiant canmlwyddiant Dylan Thomas, byddwn yn cynnal arolwg o farn y cyhoedd ar ffigwr o bwys yn llenyddiaeth Cymru y gallem ni ei ddathlu trwy gynnal digwyddiadau cenedlaethol i gael mwy o bobl i ymddiddori mewn llenyddiaeth.

Byddwn yn cefnogi Caerdydd fel Dinas Ewropeaidd y Celfyddydau, a defnyddio hyn fel ffordd o hyrwyddo Caerdydd a Chymru gyfan.

Bydd Plaid Cymru yn datblygu cysylltiadau agosach â sefydliadau yn yr Alban ac ar draws Iwerddon er mwyn hyrwyddo ein diwylliant.

Byddwn yn creu prentisiaethau ym maes dogfennau hanesyddol a diwylliant fel bod sgiliau, gwybodaeth a phrofiad y staff yn cael eu cadw a'u meithrin.

Byddwn yn cadw'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion fel corff y tu allan i'r llywodraeth ac yn dechrau adolygu'r broses restru yng Nghymru er mwyn sicrhau y diogelir ein holl dreftadaeth, gyda mwy o bwyslais ar ein treftadaeth ddiwydiannol a mwy diweddar.

“Does dim rhaid i Gymru fod yn dlawd. Nid yw’n anochel bod ein economi yn wan. Nid ydym yn cytuno mai dyma yw’r gorau y gallai fod. Dyma pam mai nod Plaid Cymru yw i greu Cymru decach, mwy gwyrdd a mwy ffyniannus”

Leanne Wood, Arweinydd Plaid Cymru

